

ECO'R WYDDFA

RHIF 338

TACHWEDD 2006

PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn:

- Colofn y Plant
- Stori Eirlys
- Côr Meibion yn America
- Môr o Ganu

Band yn Troi at eu Gwreiddiau i Ysbrydoli Disg

MAE dros 170 mlynedd wedi mynd heibio bellach ers i griw o chwarelwyr o'r chwarel lechi yn Ninorwig ffurfio, beth sydd erbyn heddiw yn cael ei adnabod fel, Band Deiniolen. Mae dylanwad y chwarel yn fawr ar y band – dylanwad sydd yn parhau yn gryf iawn hyd heddiw – gyda'r band yn ymarfer mewn hen felin lechi yn y pentref. Nawr, gyda'r band yn rhyddhau yr ail gryno ddisg yn ei hanes, gwelir y band presennol yn talu teyrnged i'w cyn-dadau, ond ar yr un pryd yn edrych i'r dyfodol – dyfodol y band yn Neiniolen, sy'n hynod ddiogel yng nghôl ieuenctid y gymdeithas.

Yn 2001, comisynodd y band ddarn newydd o gerddoriaeth gan y cyfansoddwr bandiau pres byd enwog, Darrol Barry, i ddathlu ailadeiladu eu hystafell ymarfer. Mae'r darn mewn tri symudiad: 'Y Chwarel', 'Afon Caledffrwd' a 'Hen Felin' – enwau sy'n disgrifio cysylltiad y band â'r diwydiant llechi. Enw'r darn cyflawn yw 'Llechen Las', a dyma hefyd yw enw'r gryno ddisg. Cânt eu hailadrodd (a'u clywed ar un trac) mewn geiriau a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer y recordiad hwn gan y Prifardd Dafydd John Pritchard i adlewyrchu hanes y band a'r chwarel:

Llechen las, cynhaliath;
Llechen las, hunaniaeth.
Creigiau'r co' ydi'r rhain
lle mae gwaed wedi ccuol'n borffor.
Mae synau'r cŷn i'w clywed
yn fyw, fyw fan hyn,
a'r llwch yn ddu mewn 'sgyfaint.
Llechen las.

Llechen las, cynhaliath;
Llechen las, hunaniaeth.
Ond mae'r gân yn y graig;
y gân fu'n ein cynnal
pob un haf a gaeaf.
Y gân hon yw craig
ein goroesiad;
ac ynddi, arni, bydd cân
yn naddu'r llechen.
Llechen las.



Recordiwyd y ddisg dros benwythnos andros o boeth ym mis Gorffennaf yng Nghanolfan Dinorwig gan gwmni recordio Dolce Productions o dde Cymru.

Roedd yn brofiad arbennig recordio'r gerddoriaeth yng nghysgod yr hen chwarel a'i chynefin, yn enwedig gan fod aelodau'r band ieuenctid yn

ymuno ag aelodau'r band 'mawr' mewn dwy eitem ar y ddisg. Dyma yw'r recordiad cyntaf yn hanes Band Deiniolen ble roedd yr holl aelodau yn cyd-chwarae gyda'i gilydd. Mewn un eitem, mae dros 60 o'r aelodau'n perfformio – o'r ieuengaf sy'n 6 oed i'r hynaf sy'n 70!

Braf hefyd oedd cael croesawu

cyn-aelod yn ôl i'w fand enedigol i berfformio unawd. Mae llwyddiant Gavin Saynor yn enghraifft wych o'r talent sy'n cael ei feithrin yn yr Hen Felin yn Neiniolen – ac roedd yn bleser o'r mwyaf cael cyfeilio i un o unawdwyr blaenaf y byd bandiau pres ym Mhrydain. Braint hefyd yw cael cyfeilio i John Eifion, sydd erbyn hyn yn aelod gwerthfawr o bwyllgor y band. Mae enw John Eifion yn adnabyddus ledled y wlad, ac mae'n anrhydedd cael cyflwyno eitem ganddo ar y ddisg.

Bydd 'Llechen Las' ar gael i'w phrynu o Hydref 27ain am £10 drwy law unrhyw aelod o'r band, neu yn uniongyrchol drwy ffonio Meirion Jones ar (01286) 870452 neu Dylan Williams ar (01286) 675434. Am fwy o fanylion am y CD, ynghyd â lluniau o'r penwythnos recordio ac enghreifftiau o'r gerddoriaeth ymwelwch â <http://www.deiniolenband.org.uk>

Hoffai'r band ddiolch i gwmni First Hydro (<http://www.fhc.co.uk>) am eu cefnogaeth i'r prosiect hwn.

(Rhagor o luniau ar dudalen 16)



ECO'R WYDDFA

RHIF 338
TACHWEDD 2006
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu**

Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
LL55 4BA

Ymholiadau Golygyddol

Llinos Jones
01248 374 962
llinos@hotmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, 20 TACHWEDD

Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 30 TACHWEDD

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Rhagfyr	20 Tachwedd	30 Tachwedd	Caeathro	Clive James	677 438

Llythyrau

Sŵn y Gwynt
Ffordd Padarn
Llanberis

Annwyl Ddarllenwyr

Yn sgil y cyfeiriadau yn yr *Eco*'n
ddiweddar at enwau gwreiddiol
Cymraeg ar dai, caeau,
mynyddoedd ac yn y blaen, yn
cael eu troi'n Saesneg, teimlais
fod rhaid imi roi pensal ar bapur
a chyfeirio at enwau Saesneg ar
ffyrdd yn cael eu cyfieithu i'r
Gymraeg, heb ddigon o
ymchwil wedi ei wneud gan
unigolion na'r Cyngor i
darddiad yr enw Saesneg.

Yn ddiweddar mi glywais
rhywun yn cyfeirio at Field
Terrace, Llanberis, fel Rhes-y-
cae – trosiad ardderchog, petai'n
gywir.

Yn ôl llyfryn Matt Pritchard
*Canmlwyddiant Capel Nant
Padarn (1868-1968)* roedd y
brydles ar y tir lle'r adeiladwyd
y capel arno yn cael ei ddal gan
ddau ŵr: Thomas Field, 27
South Frederick Street,
Edinburgh a John Lane o
Llanberis, 'Quarry Agent'. a
phrynwyd y brydles gan
swyddogion y capel.

Mae'n debygol mai *Property
Developers* oedd y ddau ŵr, yn
prynu tir dan brydles oddi wrth
Tlodion Rhuthun gyda'r bwriad
o adeiladu tai ar y tir wedyn.

Galwodd Thomas Field y
rhes o dai a adeiladodd yng
ngwaelod Stryd Goodman yn
Field Terrace, gyda rhes arall o
dai rhwng safle Capel
Gorffwysfa ac adeilad Banc
HSBC, wedi ei enwi'n Lane
Terrace, ar ôl ei bartner.

Mae'r enw Lane Terrace
wedi llwyr ddisflannu erbyn hyn
ond mae Field Terrace yn dal yn
llynyn cyswllt rhwng y
Llanberis cyntefig a'r pentref
presennol.

Buaswn yn hynod falch o
dderbyn unrhyw wybodaeth
ynghŷn â datblygiad strydoedd a
thai Llanberis yn ystod y
ddeunawfed ganrif.

EIFION ROBERTS

Hafan
Caeathro

Annwyl Gyfeillion

Bu cryn sôn am gopa mynydd
uchaf Cymru yn rhifyn mis
Hydref 2006 – llun o 1936, taith
yn 1948 a hanes dechrau
dymchwel adeilad Clough
Williams Ellis.

Hoffwn apelio at bawb sydd â
dylanwad i bwyso ar Awdurdod
Parc Cenedlaethol Cymru i

hepgor y defnydd o'r enw
Snowdon ar gyfer yr adeilad
newydd.

Ers 1974, 'Llyn Tegid' yn
unig yw enw swyddogol y llyn
ger y Bala. Ac ers hynny
gwelwyd llai a llai o ddefnydd
o'r geiriau 'Bala Lake'. Yn yr un
modd mae'r enw brodorol wedi
dechrau teyrnasu yn lle yr enw
swyddogol milwrol Saesneg,
'Everest', ar gyfer enw mynydd
uchaf y byd.

Felly, beth am Yr Wyddfa?
Hoffwn weld enw fel 'Canolfan
Copa'r Wyddfa Summit Centre'
ar yr adeilad newydd. Ac i'w
agor? Beth am Eric Jones,
tywysog Cymraeg mynydda
Cymru?

Yn gywir

CLIVE JAMES

Cilfynydd
Llanberis
01286 872390

Annwyl Gyfeillion

'PLENTYN Y NADOLIG'
Mae'n amser paratoi ar gyfer
apêl flynyddol Ymgyrch
Plentyn y Nadolig (*Operation
Christmas Child*) unwaith eto.
Bu pobl y fro yn hael iawn eu
cefnogaeth i'r gwaith hwn ers
blynyddoedd bellach.

Bydd cyfle eto eleni i anfon
anrhegion Nadolig mewn bocs
esgidiau i blentyn yn un o'r
gwledydd tlotaf neu yn un o'r
gwledydd sydd yng nghanol
anghydfod a rhyfel.

Mae'n bosibl fod eich ysgol
leol yn cymryd rhan yn yr
ymgyrch. Os ydyw, ewch â'r
bocs yno, wrth gwrs. Ond os
nad yw mae croeso i chi ddod â'r
bocsys ataf fi i Cilfynydd,
Llanberis.

Mae label arbennig i'w rhoi
ar y bocs ac mae'r mudiad yn
gofyn hefyd am £2, os yn bosibl,
tuag at gostau cludo'r bocsys i'r
plant.

Ffoniwch, neu galwch acw os
ydych eisiau label, neu os
byddwch eisiau i mi ddod i nôl
y bocsys gennych.

Y dyddiad ar gyfer derbyn y
bocsys eleni fydd dydd Sul,
Tachwedd 19. (Bydd gan eich
ysgol leol ddyddiad gwahanol
mae'n debyg, ond dyma'r
dyddiad yr wyf fi'n anelu ato.)

Diolch ymlaen llaw am eich
cefnogaeth eto.

JOHN PRITCHARD

Sefydliad Prydeinig y Galon
Blwch Post 146
Bangor
LL57 4YS

Annwyl Olygydd

A gaf i, trwy eich papur bro,
wneud apêl i'ch darllenwyr?
Mae Sefydliad Prydeinig y

Galon yng Nghymru angen
parhau gyda'r gwaith
ardderchog a wneir yn barod
gan ein gwirfoddolwyr. Gyda'n
tim presennol rydym yn gallu
sicrhau ein bod yn gwario £190
pob dau funud o bob diwrnod ar
ymchwil sy'n arbed bywydau a
chadw calonnau Cymru'n curo.

Mae clefyd y galon yn
effeithio ar bobl o bob oedran ac
o bob cefndir ac mae'n cael
effaith ofnadwy ar fywydau
llawer o unigolion, eu teuluoedd
a'u ffrindiau.

Er bod ein tim o
wirfoddolwyr yn gwneud
gwaith ardderchog rydym
angen mwy o gymorth yn lleol.
Mae gennym amrywiaeth o
waith y gallem gynnig i'r rhai
sydd eisiau gwirfoddoli gyda ni
– boed yn ddwy awr yr wythnos
neu ddwy awr y flwyddyn – mae
popeth yn help i wneud
gwahaniaeth i fywydau cleifion
y galon a'u teuluoedd.

O weithio gyda phlant mewn
ysgolion, i godi arian yn y
gymuned, i oruchwylio
digwyddiadau cystadleuol fel
golff i blant iau – mae rhywbeth
at ddiddordeb a sgiliau pawb.
Mae Sefydliad Prydeinig y
Galon angen eich cymorth.

Os oes unrhyw un o'ch
darllenwyr eisiau chwarae rhan
yn arbed bywydau a chwrdd
pobl newydd trwy wirfoddoli,
gallant fy ffonio am sgwrs
anffurfiol ar (01248) 601919 neu
gysylltu â mi ar e-bost ar:
woodington@bhf.org.uk.

Yn gywir iawn

KATY WOODINGTON
Rheolwr Gwirfoddolwyr

Rhoddion

£10: Mrs Gracie Roberts
(Waterfall View), Llanberis;
Olewer a Trefor Edwards a'r
teulu; Carole a Len Porter, 4
Bron y Waun, Penisarwaun;
Margaret Wyn Roberts,
Rhodynog, Caernarfon.

£5: Bethan a Macari; Mrs
Gwyneth Jones, 25 Bryn
Tirion, Penisarwaun; Selwyn a
Betty Roberts, Meifod,
Llanrug.

£4: David a Lynne Evans, 10
Tai Cynfi, gynt.

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

ADREF O'R YSBYTY. Da yw deall fod Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, ond sydd yn cartrefu ar hyn o bryd ym Mhlas Garnedd, Llanberis, wedi cael dod yn ôl i'r cartref ar ôl peth amser yn Ysbyty Llandudno. Da deall ei bod yn well ac anfonwn ein cofion ati gan ddymuno gwellhad buan iddi.

CLWB ORWIG. Teithiodd aelodau Clwb Orwig i Antur Waunfawr i ginio dathlu chweched pen-blwydd y clwb ar 5 Hydref.

Cynhaliwyd cystadleuaeth wedi ei threfnu gan Joan Glass i godi arian at Ysgol Pendalar a llwyddwyd i godi £400. Tynnwyd y tocynnau lwcus gan Hylie Cartwright o'r ysgol honno.

Yr enillwyr oedd Sophie Baxter, Clogwyn, Dinorwig, a dderbyniodd dalebau am ginio Sul i ddau yn Nhŷ Bwyta Molly's, Caernarfon; John Spill o Dregarth yn ennill cinio i ddau yng Ngwesty Dôl Peris, Llanberis; Carolyn Ormesher yn derbyn taleb cinio yn Spice, Llanberis a Judith Harding, Penisarwaun, yn ennill potel o win rhoddedig gan Westy Plas Coch, Llanberis.

Diolchodd y Llywydd i Mrs Anwen Willias, rheolwraig arlwyio yr Antur a chyflwynwyd tusw o flodau iddi a derbyniodd Ffion Haf Jones, y gymhorthwraig, rodd hefyd. Diolchwyd i Val Rowlands ac Ann Thorman am eu cymorth hwythau ac i Iwan Morris, a oedd yno ar brofiad gwaith o Goleg Menai. Torrwyd y gacen ben-blwydd o waith Anwen Williams gan yr ysgrifennydd, Betty Bower.

Rhodddwyd y gwobrau raffl gan Joan Glass, Alice Griffith, Megan Morris a Betty Bower ac fe'u henillwyd gan Morfudd Jones, Betty Roberts, Betty Bower, Margaret Faulkner, Nellie W. Jones a Joan Glass.

NEWID BYSIAU. Erbyn hyn yr ydym wedi gweld newid yng nghwmni y bysiau sydd yn rhedeg o Ddinorwig i Gaernarfon. Rwyf yn sicr y buasem yn caru diolch i yrrwyr Arriva am eu gwên serchog ac hefyd am fod bob amser yn barod i roi cymorth i'r teithwyr os oedd angen.

Yrrwyr bysiau Arriva, derbyniwch ddiolch trigolion Dinorwig. Diolch yn fawr iawn i'r hogia.

EISTEDDFOD BENTREEF 2006
Cystadleuaeth Llinell Goll:

Meddai Wigley, 'Os â i Mai nesa'
Yn ôl i wleidydda,
Ni fyddai i'n syn
Petai leuan Wyn

(Ceisiadau, dan ffugenw, i'r Ysgrifenyddes., Rhian Hughes, erbyn 6 Tachwedd, ynghyd ag enw'r ymgeisydd mewn amlen.)

Erbyn hyn mae'r ymarferiadau ar gyfer yr Eisteddfod wedi cychwyn ac mae'r plant yn brysur iawn yn mynd o le i le i ganu neu i lefaru. Eisoes mae rhywfaint o arian wedi dod i law er budd yr Eisteddfod, ond os oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu yn ariannol a heb wneud, buasai'r Trysorydd, Gwyneth Jones (neu un o'r Swyddogion), yn falch o dderbyn unrhyw rodd, a chydabyddir hyn yn rhaglen y dydd.

Cynhelir cystadlaethau'r dawnsio ar nos Fawrth, 14 Tachwedd, am 6.00 ac yna'r Eisteddfod y dydd Sadwrn canlynol, 18 Tachwedd, am 1.00 a 6.00 o'r gloch. Dewch i gefnogi plant a ieuencid y pentref.

CLWB BRO BETHEL. Braff oedd cael nifer dda o aelodau yng nghyfarfod mis Hydref y Clwb. Goronwy Jones oedd yn llywyddu a chroesawyd pawb ynghyd. Diolchodd i'r merched a fu o gwmpas y pentref yn casglu er budd Age Concern yn ddiweddar. Cyfanswm y casgliad eleni oedd £291.31 a derbyniodd y Clwb hanner hwn, sef £145.65.

Y gŵr gwadd oedd Gwyn Williams, Cyfarwyddwr cwmni teledu, Cwmni Da, a chafwyd ganddo grynoded o'i yrfa dros y blynyddoedd a sut y bu iddo sefydlu'r cwmni. Soniodd ymhellach am ei waith o ddydd i ddydd, a gyda chymorth clipiau fideo eglurodd sut y mae ambell raglen yn cael ei chynhyrchu. Diolchodd Jenkin Griffiths iddo am ddod i'r cyfarfod a rhannu ei brofiadau ymysg yr aelodau.

Beti Owen fydd yn annerch yn y cyfarfod nesaf, brynhawn Mawrth, 7 Tachwedd, yn Festri Bethel. **CAPEL CYSEGR.** Plant yr Ysgol Sul oedd yng ngofal y Gwasanaeth Diolchgarwch yn ddiweddar, ac roedd nifer dda o rieni a chyfeillion yn bresennol. Thema'r gwasanaeth oedd 'Rhannu' a chafwyd cyfraniadau, trwy lefaru a chanu, gan bob dosbarth yn ei dro. Wedi i'r plant orffen, cafwyd sgwrs bwrpasol gan Manon Gwynedd.

Diolchodd Geraint Elis i'r holl blant a'u hathrawon am y paratoi, i Gethin Griffiths am gyfeilio, i Rita Williams am baratoi'r gwasanaeth ac i ferched yr Ysgol Sul am addurno'r capel. Roedd y casgliad rhydd yn mynd tuag at Apêl Eglwys Bresbyteriaid Cymru 2006, 'Rhwygo'r briw yn Rhwymau'r Efengyl' a'r cyfanswm oedd £104. **Y GYMDEITHAS LENYDDOL.**

Roedd nifer dda o aelodau wedi troi allan i gyfarfod cyntaf o weithgareddau'r Gymdeithas. Croesawyd pawb, gan gynnwys aelodau newydd, gan y Llywydd, Ieuan Williams, a darllenodd lythyr parthed prosiect cyffrous Cae'r Gors, Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts, Rhosgadfan. Apelir am hen greiriau er mwyn dodrefnu'r

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

adeilad, ac hefyd gwahoddir cymdeithasau lleol i noddi bricsan yn y lle tân. Pasiwyd i gefnogi'r cynllun noddi bricsan.

Roedd y noson agoriadol dan ofal John Eifion a'i deulu o Benisarwaun, ac yn eu cwmni cafwyd orig hyfryd ac amrywiol. Yn eu rhaglen dangoswyd talent y teulu yn perfformio caneuon traddodiadol, cân Eidaleg, dawnsio stepio a deuawd piano. Rhwng yr eitemau cerddorol cafwyd storïau digri gan John Eifion, a berodd i bawb ymlacio a chwerthin.

Yn dilyn yr adloniant roedd lluniaeth i bawb wedi ei baratoi gan Maud Williams a merched y Pwyllgor. Diolchwyd yn gynnes iawn am noson ardderchog o safon uchel gan Eirwen Williams.

Dalier sylw mai ar 28 Tachwedd (nos Fawrth olaf yn y mis) y bydd y cyfarfod nesaf a hynny yng nghwmni Neville Hughes, Bethesda.

DIOLCH. Dymuna Angharad ac Antony, a Manon a Mark, Cilgeran, ddiolch o galon i bawb am eu dymuniadau da a'r anrhegion a gafwyd ar enedigaeth Steffan Pys a Gwion Elis.

GALW GWEINIDOG. Yn dilyn pleidlais yn y ddwy eglwys fore Sul, 1 Hydref, mae Gofalaeth Glannau Saint, sef Capel y Cysegr, Bethel, a Chapel y Rhos, Llanrug, wedi cytuno i estyn galwad i'r Parchedig Marcus Robinson. Mae'r ddwy eglwys yn edrych ymlaen yn arw i gael gwasanaeth gweinidog unwaith eto. Y trefniadau ydi i'r gweinidog ddechrau ei ofalaeth newydd yn Ebrill 2007.

MERCHED Y WAWR. Croesawyd yr aelodau i gyfarfod y gangen gan y Llywydd, Anne Elis. Dymunodd wellhad buan i Joyce Roberts, Aled Jones a Sheila Roberts, a llongyfarchwyd Dewi Griffiths ar ei lwyddiant fel unawdydd gyda Band Tredegar. Balch oeddem fel cangen o dderbyn £65 gan y Pwyllgor Rhanbarth oedd yn rhan o'r elw o baratoi lluniaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri. Bydd y Cwis Hwyl Cenedlaethol yn cael ei gynnal ym Meifod, Bontnewydd ar 17 Tachwedd. Os oes gennych ddiddordeb mewn ffurfio tîm o bedair, neu fynd i gefnogi a chymdeithasu, cysylltwch hefo Rita.

Pleser oedd croesawu ein gwraig wadd, Dr Angharad Price, Caernarfon – un o blant Bethel – i'n plith. Mewn ffordd gartrefol, cawsom, drwy gyfrwng fideo a sgwrs, olrhain hanes ei theulu unigryw o Dy'n Braich, Dinas Mawddwy. Yr oedd y gwaith yn ffrwyth llawer o ymchwil, a arweiniodd at iddi ennill y Fedal Rhyddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol 2002 am ei chyfrol *O Tyn y Gorchudd*. Wedi dilyn gyrfa ddisglair mae Angharad erbyn hyn yn ddarlithydd yn yr Adran Gymraeg ym Mangor. Yr oedd y noson wedi ei noddi gan yr Academi.

Diolchwyd i Angharad yn wresog gan Gwyneth Jones. Llongyfarchwyd Anne ar ddod yn nain i Gwion Elis, mab bach i Mark a Manon. Merched y te oedd Gwyneth Williams a Sian Davies ac enillwyd y raffl gan Nancy Williams. Bydd ein cyfarfod nesaf yn y Llyfrgell yng Nghaernarfon nos Fercher, 8 Tachwedd am 7.30 yn brydlon.



Kylie Cartwright o Ysgol Pendalar yn tynnu'r tocyn raffl llwyddiannus yn y parti pen-blwydd.



**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y Sgwâr
Llanrug**

**Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael –**

**Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)**

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI**

WAUNFAWR

**Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291**

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc –
allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

**GLANHAU CARPEDI
GYDA STIMVAK**

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)



Llongyfarchiadau i Lynne Roberts, 10 Rhes Cynfi, a David Howard Elias, 39 Y Wern, Y Felinheli, ar eu Priodas ar 22 Gorffennaf yn Eglwys Sant Peris, Nant Peris.

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau i Alaw Mari, 8 Rhes Faenol, ar ei dyweddïad â Mathew Osmont o Ynys Jersey ym mis Awst. Dymuniadau gorau a phob lwc iddynt yn y dyfodol.

CYNHALIWDYD cyfarfod cyntaf y tymor ar 26 Medi yn Nhŷ Elidir. Cafwyd noson ddiffr yng nghwmni Mr Gwyn Parri, Cynefin. Llywydd y noson oedd Mrs Buddug Jones a thalwyd y diolchiadau gan Mrs Margaret Cynfi Griffith.

Dymuna Lynne a David ddiolch i'w teulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a gawsant ar achlysur eu Priodas.

MERCHED Y WAWR. Nos Lun, 16 Hydref, cynhaliwyd cyfarfod yn Nhŷ Elidir o dan lywyddiaeth Buddug Jones. Cafwyd cynulliad da iawn. Y wraig wadd oedd Rowena Thomas, Porthaethwy. Bu'n sôn am fordaith y bu arni, gan alw ym mhrifddinasoedd Llychlyn a mynd cyn belled â St

Dymuna Bethan a Macari ddiolch o waelod calon am yr holl arian ac anrhegion a gafwyd ar achlysur eu priodas. Hefyd diolch i Euros Wyn Williams a Band Deiniolen am eu gwasanaeth ar y diwrnod. Diolch yn fawr.



Petersburg. Roedd ganddi sleidiau gwyh i'w dangos ac roedd yn siarad yn eglur a diddorol. Diolchwyd iddi gan Iona Richards.

Ar Dachwedd 20 ein gŵr gwadd fydd Geraint Jones, Trefor, a gwn y cawn noson ddiddorol yn ei gwmni. Y testun fydd 'Cyrn y Diafol'.

DYMUNA Iwan a Lorraine, ac Alwyn a Falmi, Rhes Faenol, ddiolch yn fawr i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn, cardiau, llythyrau, arian a'r ymweliadau a dderbyniodd Iwan ar ôl ei lawdriniaeth ym Manceinion yn ddiweddar.

DRAENOG

Glywsoch chi hanas Wil Penisarwaen, clamp o foi, a'i wraig sy' mor dena' â styllan mewn blwch matsus, yn mynd i Malagu, neu rywla yn ystod gwyliau'r haf 'leni, a neb yn gweld habwd o Wiliam am wsnosa wedi iddo ddychwelyd adra i fro hen iaith ein tada'? Pawb yn meddwl bod Margiad ei wraig wedi ca'l gwarad ohono tra'n aros tair noson yn Malagu. Y wraig, dalltwch chi, pan oedd Wil ar y traeth yn bol-heulo, ac yntau'n chwyrnu cysgu, wedi gosod papur llawn tylla' ar wynab Wil, sy' fel rhaw o fawr, a'r blwmin haul wedi gada'l smotia' cochion, fel ryw frech goch, ar dalcan, trwyn a gên ddi-farf yr hen griadur!

Tro nesa' yr hen gono, dos i gysgod coed llyn Padarn, neu dros mynydd, a chadw rhag yr haul, a chastia' castiog 'r hen Fargiad!

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd yn cyflwyno cyngerdd CÔR RHUTHUN

Arweinydd:

Morfudd Vaughan Evans

Cyfeilydd:

Robat Arwyn

Unawdydd gwadd:

Aeron Gwyn (Bariton)

Enillydd Gwobr Goffa David Ellis, Y Ruban Glas, Eisteddfod Eryri

Cyfeilydd:

Gres Pritchard

Arweinydd y noson:

Neville Hughes (Hogia Llandygai)

Dydd Gwener, 17 Tachwedd 7.30 yr hwyr

yn Galeri Caernarfon

Tocynnau £10

Bydd elw'r noson yn mynd tuag at

Gyfeillion Ysbyty Gwynedd Gyda chymorth Banc Barclays

Trem yn Ôl

Hanes Plwyfi Llandyrnog a Llangwyfan

Mae'r gyfrol hon, sydd dros 100 tudalen o hyd ac yn cynnwys nifer fawr o luniau, yn cofnodi cyfoeth hanes plwyfi Llandyrnog a Llangwyfan. Am ragor o fanylion ffoniwch Mrs Nora Jones ar 01824 790411 neu ysgrifennwch at Ysgrifennydd Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog, Y Gilfach, Llandyrnog, Dinbych, Sir Ddinbych LL16 4LA, e-bost: idris.jones1@btinternet.com. Anrheg Nadolig delfrydol!

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

BABI NEWYDD.

Llongyfarchiadau i Manon a Mark Bee, Tai Glangwna, ar enedigaeth Gwion, brawd bach annwyl i Lois ac Erin.

GRADDEDIGION.

Llongyfarchiadau i Esmor Hughes, Bryn Eden, ar ei radd mewn Amaethyddiaeth. Mae o wedi ei benodi fel darlithydd amser llawn yng Ngholeg Glynllifon.

Mae Karen O'Grady, Tyddyn Whisgyn, hefyd wedi graddio yn y Gyfraith o Brifysgol Durham. Rwan mae hi'n dilyn cwrs proffesiynol yn y Gyfraith yng Nghaer.

HEDDLU. Cynhaliwyd cyfarfod cyswllt efo swyddog cymunedol lleol yr heddlu, yr Heddwes Gwyn Parry, yn y Waunfawr ar 11 Hydref. Mae'r Heddlu wedi addo cadw llygad ar unrhyw ddrwg-weithredwyr ger y Pafiliwn ar y cae pêl-droed. Cwyn arall oedd

perchnogion ceir yn gor-yrro trwy ganol y pentref. Mae'r Heddlu yn gofyn i bobl gofnodi rhifau cofrestru'r cerbydau hyn ynghyd â'r dyddiad a'r amser, a throsglwyddo'r wybodaeth naill ai yn uniongyrchol i'r Heddlu (ffôn 673333) neu i Gynghorydd Cymuned. Ni fydd angen mynychu unrhyw achos llys efo'r dystiolaeth! CYMDEITHAS CAE CHWARAE.

Yn ail ran y Cyfarfod Blynnyddol ar nos Lun, 16 Hydref, derbyniwyd y Fantolen am 2006/7. Dangosir copïau ar hysbysfyrddau yn Nhafan Bryngwna a Chanolfan y Capel.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir cynnal y cyfarfodydd canlynol ym mis Tachwedd:

5: Dim gwasanaethau

12:11.00 Ysgol Sul

2:00 Mrs Susan Williams

19:11.00 Ysgol Sul

26:11.00 Ysgol Sul

2:00 Parch Harri Parri (Cymun) Croeso i bawb.


TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Hydref oedd:

£40: (30) Glyn Evans, Llwyn Alice; £25: (54) Peris Thomas, 4 Bryn y Gof; £15: (92) Vernon Jones, Llain Meddygon; £5: (32) Mrs Moore, Eryl Cottage.

SYMUD CARTREFI. O'r diwedd gwelwyd symudiad yn y cadwyn cartrefi yng Nghaeathro. Mae Olivia Roberts a'r plant wedi symud o 'Cartref' yn ôl i'r Fron. Fel canlyniad roedd Shaun Atkinson yn medru symud o 'Carreg Llwyd' i ganol y pentref - i 'Cartref'. Mae hyn oll wedi galluogi John Jones i ddychwelyd o fwynder Maldwyn a thrigo yn 'Carreg Llwyd'. Gwaith sychedig yw symud tŷ - ac wedyn adeiladu aelwyd newydd.

LLYFR NEWYDD. Newyddion da i blant bro'r Eco a Chymru gyfan ydi bod llyfr newydd sbon gan Emily Huws, sef *Lol neu Lwc*, ar fin

cyrraedd y siopau. Mae'n dweud hanes merch bach amddifad sydd isio cael ei mabwysiadu ond ma hi hefyd isio bod yn swynwraig! Un arall i ychwanegu at eich casgliad, blant.



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

**WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY**

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

UN FUNUD FACH

DUW

Ym mēr fy esgyrn ac yn nyfnder fy nghalon ac yng nghraidd fy meddwl rwy'n credu yn Nuw. Gwn ei fod yn gofalu amdaf. Rwy'n ei garu am ei fod ef yn gyntaf wedi fy ngharu i. Ond er hyn i gyd, fedra i ddim profi fod Duw yn bod.

A dyna pam ei bod yn rhyfeddod i mi fod rhai pobl yn gallu datgan mor sicr nad oes Duw i'w gael. Darllenais ddwy erthygl yr wythnos ddiwethaf oedd yn cyhoeddi'n bendant nad yw Duw yn bod. Roedd y naill yn dweud hynny oherwydd y drychineb yn Aberfan ddeugain mlynedd yn ôl, a'r llall ar sail rhyfeloedd erchyll y presennol.

Mae dioddefaint a drygioni'n peri dryswch a phoen a gofid. A does dim syndod fod pobl yn aml yn gofyn pam fod y fath bethau'n digwydd. Ond nid yw dioddefaint a drygioni'n gwrthbrofi bodolaeth Duw. Gall pobl honni eu bod yn gwneud hynny; gallant gredu eu bod yn gwneud hynny. Ond ni allant ddweud hynny fel ffaith. Neu o leiaf, ni allant ddweud eu bod yn gwrthbrofi bodolaeth Duw'r Beibl. Mae dioddefaint a drygioni'n hysbys i Dduw'r Beibl. Bu'r ddau beth yn rhan o fyd Duw byth ers dyddiau Gardd Eden.

Pe byddai Duw wedi dweud na fydd neb yn dioddef neu wedi addo dileu drygioni o'r byd presennol, byddai sail dros amau ei fodolaeth. Ond ni ddywedodd Duw hynny. I'r gwrthwyneb,

mae Duw'r Beibl yn addo nerth yng nghanol dioddefaint ac yn galw pobl i gefnu ar y drygioni sy'n achosi cymaint o lanast yn ei fyd.

Mae rhai'n disgwyl i Dduw ymyrryd â deddfau natur er mwyn osgoi pob trychineb, neu'n credu y dylai Duw atal pobl rhag cyflawni'r drygioni sy'n achosi poen i eraill. Ond nid dyna Dduw'r Beibl. Mae Duw'r Beibl yn caniatáu drygioni. Canlyniad uniongyrchol methiant pobl i barchu Duw yw drygioni, ac mae'n annorod mewn byd lle mae pobl ffaeledig yn rhydd i ddewis sut i fyw. Ac mae Duw'r Beibl hefyd yn caniatáu dioddefaint. Mae damweiniau a thrychinebau naturiol yn annorod mewn byd o ryddid a threfn naturiol gydag achos ac effaith i bob peth. Datgan wna Duw'r Beibl ei fod yn ben dros y cyfan, a'i fod hyd yn oed yn gallu defnyddio drygioni a dioddefiadau er mwyn ei bwrpas ei hun.

Fedrwn ni ddim deall hyn yn llawn. Mae meddyliau Duw gymaint uwch na'n meddyliau ni. Ond fedrwn ni ddim anwybyddu'r pethau hyn chwaith.

Nid Duw bach neis nad oes ganddo ateb i broblem pechod a drygioni yw ein Duw ni. Mae'n rhoi nerth i ni yng nghanol pob dioddefaint. Fe anfonodd ei Fab i ddioddef marwolaeth erchyll er mwyn i ni fod yn rhydd rhag canlyniadau drygioni. Nid yw bodolaeth drygioni a dioddefaint yn ddadl ddigonol dros wrthod credu yn Nuw'r Beibl.

JOHN PRITCHARD

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill



BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580



Dafydd Ellis, Gwyn Hefin, Ifanwy, Lowri a Robert John tu allan i Gapel Presbyteraidd Jerusalem, Wales.

NEWID BRO. Dymunwn yn dda i John Meirion a Gwawr Morris, Ystad Erw'r Nant, yn eu cartref newydd ym mro eu mebyd yn Llanuwchllyn. Buont yn cartrefu yn ein plith am un mlynedd ar bymtheg.

Estynnwn groeso yr un pryd i Bryn a Gwenan a'u dwy ferch fach, Nel a Buddug, o ardal Llanrug sydd wedi symud i fyw i'r Griolen.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Y **GYMDEITHAS.** Nos Iau, 12 Hydref, oedd cyfarfod olaf y Gymdeithas am 2006. Croesawyd pawb yn gynnes i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Emyr Williams. Gyda blas yr Wyl Ddiolchgarwch ar y myfyrdod, aeth ymlaen i estyn croeso i'r gŵr gwadd, sef J. Elwyn Hughes, o Fethel. Cafwyd noson hynod o ddiddorol yn ei gwmni yn cyflwyno ardal Bethesda drwy luniau unigryw ac arbennig iawn. Roedd y cyfan yn arddangos diddordeb dwfn y siaradwr yn y testun ynghyd â'r gwaith ymchwil rhagorol dros gyfnod maith - y cyfan yn drysor i'r oes a ddêl.

Diolchwyd yn gynnes am noson bleserus gan y Cadeirydd, yn cael ei eilio gan lawer un oedd yn bresennol. Ifanwy Jones a Verna Jones oedd wedi paratoi y lluniau. Mae ein diolch ar ddiwedd tymor unwaith eto i'r Ysgrifennydd, John McBryde, am drefnu'r siaradwr gwadd yn ystod 2006 ac i Dwynwen Williams am ei chymorth yn trefnu dyletswyddau yr aelodau o fis i fis. **COFION.** Yn ystod oedfaon Suliau Hydref rydym wedi colli presenoldeb ffyddlon teulu Ty'n Buarth oherwydd gwaeledd. Yn dilyn croesawu Richard Wyn i'r oedfaon ddechrau Medi wedi cyfnod hir o anhwylder, drwg oedd gennym golli Dilys o'r oedfaon ddechrau Hydref oherwydd iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Yn anffodus ychydig ddyddiau cyn iddi ddychwelyd gartref bu raid i Gwyneth fynd dan archwiliad i'r un ysbyty. Anfonwn gofion cynnes iawn at y ddwy gan

ddymuno adferiad buan iddynt gan fod eu lle yn wag iawn yn yr addoliad.

ADDOLI ODDI CARTREF. Dyna fu hanes pump o'r aelodau yn ystod dau Sul ym Medi. Fel rhan o Daith Gyngerdd Côr Meibion Bangor ymunwyd mewn gwasanaeth Cymun ar ddydd Sul, 17 Medi, yn y First United Methodist Church Chicago, a'r Sul canlynol mewn gwasanaeth Bedydd yn y Plymouth Congregational Church, Forte Wayne. Roedd yn brofiad gwefreiddiol ymuno i addoli lle'r oedd 700-800 yn bresennol yn y ddwy oedfa.

Profiad arbennig yn ystod y daith hefyd oedd ymweld â nifer o gapeli a godwyd gan y Cymry yn Wisconsin, Ohio ac Indiana yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg - yr oll o'r adeiladau yn hardd a graenus a chynulleidfaoedd o dros gant yn addoli ynddynt bob Sul. Ym mhentref Wales, Wisconsin, Gomer Ohio a Venedocia fe'n derbyniwyd â breichiau agored gan ddisgynyddion yr hen Gymry yng nghapeli Jerusalem, Bethesda a Salem ac roedd yn wefr astudio yr arddangosfeydd o gofnodion y capeli oedd wedi eu gosod allan ar ein cyfer. Cawsom gyfle i berfformio ymhob un o'r capeli.

Profiad arbennig arall oedd cael tynnu ein sylw at lethr Bryn Mawr, lle cynhelid Cyfarfodydd Pregethu awyr agored o 1915 ymlaen gyda dwy i dair mil o Gymry yn bresennol, a'u canu emynau yn atseinio yn y dyffrynnoedd islaw.

OEDFAON TACHWEDD.

Yr oll o'r cyfarfodydd am 5.30 o'r gloch yr hwyr.

5 Parchg H. Gwynfa Roberts, Llanwnda

12: Parchg Ddr. Dafydd Wyn William, Bodedern

19: Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon

26: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel

Taith Côr Meibion Dinas Bangor i America, Medi 2006



(Rhes flaen, o'r chwith): Lowri Roberts Williams, James Griffiths, Elri Owen a Gwilym Lewis.
(Rhes gyntaf, ail o'r dde): Bob Thomas.

Ar ôl amser hir o baratoi gofalus dros ben gan Hugh H. Williams (Bethel), Ysgrifennydd y Côr, daeth y diwrnod i'r Côr wireddu'r freuddwyd o deithio i'r Unol Daleithiau i ymweld â Chicago; Madison, Wisconsin; Fort Wayne, Indiana, a dau bentref â chysylltiadau Cymreig agos iawn yn Ohio.

Canodd y Côr yng Ngŵyl Fawr Geltaidd Chicago ac fe wnaed cymaint o argraff fel y daeth gwahoddiad yno eto gan neb llai na Maer Chicago. Yr unawdydd efo'r Côr oedd y mezzo soprano, Eleri Owen. Hefyd cafwyd eitemau gan Bob Thomas, un o aelodau'r Côr, a chafodd hyn dderbyniad gwresog iawn gan y dyrfa fawr a ddaeth i wrando.

Ar fore Sul, 17 Medi, canodd y Côr mewn gwasanaeth yn Eglwys y Deml, Chicago – capel enfawr yn rhan o adeilad sawl llawr o eiddo'r eglwys, a hwnnw yn llawn i'r gwasanaeth.

Ar ôl symud i Wisconsin cafwyd amser braf iawn yn Madison, prif ddinas y dalaith, ac ymweld â'r Capitol a chael sgwrs gan Gynrychiolydd yr ardal yn y Senedd. Canodd y Côr yn y Capitol ac fe ddangoswyd gwerthfawrogiad y gwrandawyr i ganu y Cymry, yn enwedig gan fod nifer o Gymry wedi ymfudo yno yn y ddeunawfed ganrif.

Roedd ymweld â phentref Wales a gweld y tai a'r capeli a adeiladwyd gan y Cymry, a'r tiroedd a ddatblygwyd yn ffermydd ganddynt, yn brofiad rhyfeddol. Cynhaliwyd cyngerdd yn Eglwys Sant Dunstan.

Ymlaen aeth y Côr i dalaith Indiana a thref Fort Wayne, lle cawsant dderbyniad gwresog iawn am bum diwrnod gan Paul a Carol Lewark, y teulu yn

wreiddiol o Sir Fôn ac yn dwyn yr enw Llywarch.

Cafwyd gwasanaeth a chyngerdd arbennig yn Eglwys Plymouth yn Fort Wayne gyda 700 yn gwrandao – a chafwyd sawl 'standing ovation'. Yn ystod yr ymweliad cafodd yr Arweinydd, James Griffiths, gyfweiliad ugain munud ar y radio – gorsaf debyg i Classic FM yma, yn sôn am gerddoriaeth Cymru, y berthynas rhwng Cymru ac America ac, wrth gwrs, y Côr. Chwaraewyd rhannau o CD y Côr ac Eleri Owen yn ystod y rhaglen. Dyma'r tro cyntaf erioed i gôr meibion o Gymru ymweld â Fort Wayne, sydd yn ddinas fawr hardd ac yn berchen ar amgueddfa ardderchog a phwysig ar fywyd a gwaith Abraham Lincoln.

Yn ystod yr arhosiad yn Fort Wayne cafwyd ymweliad â thalaith Ohio a dau bentref o dras Gymreig, sef Gomer a Venedocia. Yr oedd swyddogion capel Gomer yn ein disgwyl ac, wrth gwrs, digonedd o fwyd yn y traddodiad Cymreig! Gwelwyd nifer o lyfrau yn y Gymraeg, megis llyfrau cofnodion yr Ysgol Sul ac aelodaeth y capel. Diddorol oedd ymweld â'r fynwent a gweld y Gymraeg ar gymaint o gerrig beddau. Cafwyd cyngerdd yn y capel a daeth tyrfa fawr o bobl yno gan gynnwys nifer o bobl Amish, sef y sect ryfeddol sydd yn byw heddiw fel yr oeddynt ganrif a mwy yn ôl heb geir ond car a cheffyl. Nid oedd ganddynt drydan ond lampau oel ac yn gwneud eu dillad eu hunain – pobl hynod grefyddol, ddistaw a pharchus dros ben.

Yn Venedocia cafwyd croeso mawr arall, mwy o fwyd a sgwrs gan ddisgynyddion y Cymry

ddaeth yno i fyw a daeth nifer fawr o'r pentref i gyfarfod y Côr. Rhyfeddol oedd gweld ffenestri lliw yr eglwys yn cynnwys sawl cofiant yn Gymraeg am y teuluoedd cynnar a sefydlodd y gymuned allan o'r goedwig i fod yn dir clir a ffrwythlon, a hynny cyn dyddiau tractorau a pheiriannau, dim ond ceffylau a bôn braich.

Dychwelodd y Côr adref ar ôl

pythefnos fythgofiadwy a chroeso tywysogaidd pawb yn yr Unol Daleithiau ac, wrth gwrs, sawl gwahoddiad i fynd yn ôl i ganu. Yn ystod yr ymweliad canodd y Côr o dan arweinyddiaeth James Griffiths gyda Lowri Roberts Williams yn cyfeilio, Eleri Owen a Bob Thomas yn unawdwyr gyda Gwilym Lewis yn cyfeilio, Norman Evans yn canu unawd gyda'r Côr a David Price a Dafydd Ellis yn cyflwyno. Daeth nifer o aelodau Côr Dyffryn Peris ar y daith a braf oedd cael eu cwmni a hefyd eu cyfraniad gwerthfawr tuag at lwyddiant ysgubol y daith.

JAMES GRIFFITHS

DRAENOG

Os yw eich cwsmer yn Chicago ac wedi gwneud yn siŵr i ganslo yr archeb llefrith am bythefnos, siawns na ddylai'r gwerthwr gofio?

Tra rhedai'r bysedd ar y biano nid oedd dim i boeni amdano; ond problem fawr y gwerthwr llefrith oedd iddo rywsut lwyrr anghofio.

Fawr o feddwl tra'n Ohio fod y gwerthwr yn ymlwybro yn slei ryfeddol draw i gyrchu poteli llawn, rhag neb ei weld o!

Dim gobaith byth i hynny, dybiwn I ŵr sydd bellach ar ei bensiwn!

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Silver STAR **GWYLIAU SEREN ARIAN**

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

EGLWYS SANT GABREAL.

Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch ddydd Sul, 8 Hydref. Bore Sul, cawsom wasanaeth o'r Cymun Bendigaid am 9.30. gyda'n Rheithor, y Parch Robert Townsend, ac yn yr hwyr am 6.00 o'r gloch, cawsom Bregeth y Cynhaeaf gan y Parch Angela Williams (Is-Ganon) yn y Gadeirlan ym Mangor. Yr organyddes yn y ddau wasanaeth oedd Mrs Cassie Thomas. Y darllenwyr yng ngwasanaeth y bore oedd Miss Meira Williams a Mrs Hilda Orritt, ac yn yr hwyr Mrs Cassie Thomas a Dr William Munro. Dechreuwyd y gwasanaeth gan ein Rheithor a'r gweddïau gan Mr Derek Jones, Llanberis.

Diolch o galon i bawb fu'n gwasanaethu dros yr Ŵyl. Cafwyd cefnogaeth dda iawn yn y ddau wasanaeth. Dymuna'r Wardeniaid a'r Rheithor ddiolch i bawb am addurno'r eglwys mor hardd ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a'r blodau hardd dros yr ŵyl.

NOSON O BINGO. Nos Lun, 9 Hydref, cynhaliwyd Noson Bingo yn yr Ysgol Gymuned. Diolch am y rhoddion ariannol ac am y rhoddion at y raffl a'r gwobrau. Diolch i bawb am eich cefnogaeth i'w gwneud yn noson mor llwyddiannus. Roedd yr elw yn mynd i gronfa Elgwys Sant Gabreal. Diolch i Margaret ac Ann o Lanberis am alw'r rhifau allan.

Enillwyr y raffl fawr oedd:

£100: Mr a Mrs Kyffin Hughes, 10 Vaynol Cottages, Llanberis; £50: Mr Frank Smith, d/o Gwesty'r Goat, Llanwnda; £30: Marian Michael, d/o Min y don, Brynrefail; £20: Mrs Jarvis, 25 Dôl Elidir, Llanberis; Tocyn £10 Petrol: Derfel, Grug, Cadnant, Llanberis; Tocyn £10 (gan Siop Gig Llanrug): Mr Rouchey, 6 Trem Eilian, Brynrefail; Potel Sieri: Siop Sglodion, Llanberis; Bocs Eidaleg: Annwen, Bangor; Bocs o Lysiau: Mr Emllyn Bayliss, Bryn Teg, Llanberis; Bocs Nwyddau: Mrs Jackie Jones, Garej Beran; Bocs Brecwast: Mrs Gwennifer Roberts, Ysgol Cwm-y-glo; Bocs o Sawsiau

gwahanol: Mrs Gwenda Thomas, 47 Bro Rhyddallt, Llanrug; Bocs Ffrwythau: Mrs Sioned Jones, Isfryn, Cwm-y-glo; Slipars: Dylan Bee, d/o Delyth Hughes, 16 Dôl Afon, Cwm-y-glo; Nwyddau Molchi: Mrs Audrey Evans, Llanberis; Bocs Llysiau: Mrs Veronica Williams, Glan Bogelyn, Cwm-y-glo; Bocs Nwyddau: Mrs Angela Williams, Penrhos Villa, Bethel; Bocs Ffrwythau: Eryl, Siop Set One, Caernarfon; Potel o win gwyn: Mr Owen, 17 Cae Mur, Caernarfon; Cloc: Mrs Rhiannon Evans, 4 Trem Eilian, Brynrefail; Bag Dros Nos: Siop Sglodion Every Day, Caernarfon; Sgarff: Crib Coch, Llanberis; Bocs Nwyddau: Mr Pugh, Bronallt, Pontrhythallt; Tin Bisgedi: Mr Raymond Jones, Tegfan, Llanberis; Nwyddau Molchi: Mrs Smith, Llechwedd, Pontrhythallt; Lliain sychu llestri: Mai Davies, Llanrug; Bocs Nwyddau: Mr Roberts, 12 Nant-y-glyn, Llanrug; Bocs Ffrwythau: Mrs Valmai Owen, 2 Rhos Elan, Llanrug; Potel o win: Mrs Kathleen Jones, Kermend, Ffordd Glan Ffynnon; Bocs Nwyddau: Dr William Munro, 8 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Cardiau Nadolig: Parch Marcus Robinson, Cartrefle, Bethel. Bocs Nwyddau: Betty Roberts, Perthi, Llanrug; Bocs Nwyddau: Mr John Pritchard, 43 Bro Rhythallt, Llanrug; Cloc ar y wal: Mrs Ellen Jones, 4 Hafan Elan, Llanrug; Dysgl: Mr Aaron Davies, 13 Cefn Elan, Llanrug; Bocs Llysiau: Mrs Lora Roberts, 2 Bryn Gro, Llanrug.

Enillwyr y raffl ar y noson oedd: Tedi Bêr: Mr Meirion Williams, Elidir View, Cwm-y-glo; Tin o Siocledi: Ann Jones, Llanberis.

Enillwyr y cardiau oedd: Pêl-droed: Miss Meira Williams, Mrs Elizabeth Hughes a Leon, y tri o Gwm-y-glo.

Enillydd dyddiad pen-blwydd y ddoli oedd: Mrs Margaret Latham, Llanrug.

Diolch o galon i bawb am eich presenoldeb.

UNDEB Y MAMAU. Cafwyd cyfarfod yn yr Ysgol Gymuned nos Lun, 25 Medi. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr dan arweiniad Arweinydd y Gangen, Mrs Dorothy Jones a chroesawyd pawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Mrs Kathleen Jones. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gafwyd y mis diwethaf a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Trafodwyd materion oedd i law.

Croesawyd y gŵr gwadd, Mr Ralph Jones, gan Dorothy. Gyda sleidiau gwyb cafwyd sgwrs ganddo ar ei Bererindod a'i daith i Santiago de Compostella yng ngogledd Sbaen. Mwynhawyd y noson yn fawr.

Y gwesteion oedd Mrs Gwen Owen a Mrs Kathleen Jones. Rhoddwyd y raffl gan Gwen ac fe'i henillwyd gan Dorothy.

Diolchwyd i Mr Jones a'r gwesteion gan Mrs Marjorie Roberts. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

LLONGYFARCHIADAU i Arwyn,

Isfryn, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21 oed.

DIOLCH. Dymuna Arwyn ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 21.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn adferiad buan i Mr Bobby Evans, 15 Dôl Afon, ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbty ym Manceinion.

CAPEL Y TABERNACL. Cynhaliwyd Gŵyl y Diolchgarwch bnawn Sul, 15 Hydref, yng

nghwmni Mr a Mrs Michael Davies o Borthaethwy. Organydd yn Eglwys Mair, Porthaethwy, yw Mr Davies ac yn ogystal â phregeth cawsom ei wasanaeth wrth yr organ hefyd. Darllenwyd rhan o'r ysgrythur gan Mrs Davies. Pleser mawr oedd cael croesawu Mr a Mrs Davies atom ac hefyd Mr John Llywelyn Evans (Bronallt gynt) a'i ferch, mab-yng-nghyfraith a'i wyres. Diolch iddynt am droi i mewn i ddathlu'r ŵyl gyda ni, hefyd ffrindiau Mr a Mrs Davies.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor y Gymdeithas nos Fawrth, 3 Hydref, yn Festri Capel Coch. Y gŵr gwadd oedd y Parchedig Marcus Robinson, Bethel. Cawsom sgwrs ddifyr a hwyliog am ei gyfnod yn Gaplan yn y Llynges. Llongyfarchwyd ef ar gael ei dderbyn yn weinidog yn eglwys y Cysegr, Bethel, a Chapel y Rhos, Llanrug, gan y Llywydd, y Parchedig John Pritchard. Diolchwyd iddo am y sgwrs gan Mrs Vera Griffiths a diolch hefyd i'r aelodau a wnaeth y baned.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 7 Tachwedd, am 7 o'r gloch yn y festri. Byddwn yn cael cwmni Mr Gwilym Lewis, Bae Trearddur a'i destun fydd 'Sgwrs a Chân'. Edrychwn ymlaen at y noson ac mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni.

DIOLCH. Dymuna Mrs Gracie Roberts (Waterfall View) ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar, ac hefyd i Staff Pengwaith am y deisen.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau gorau i fam, nain a hen nain annwyl i awn, sef Mrs Helena M. Edwards, Victoria House gynt, ond yn awr yng Nghartref Cerrig yr Afon ers rhai blynyddoedd. Roedd hi'n 104

mlwydd oed ar 22 Hydref. Oddi wrth Olever, Gwen a'r teulu a Trefor a Heulwen a'r teulu.

BORE COFFI MACMILLAN. Dymuna Gwyneth Jones, Charlotte Street, ddiolch i bawb a fu'n cefnogi, drwy roddion a phresenoldeb, yr ymgyrch codi arian at Apêl Cancr Macmillan a gynhaliwyd, trwy garedigrwydd Danny a Nerys, yn y Bistro ar 29 Medi. Codwyd £300 at yr achos, gyda'r arian yn dal i ddod i mewn. **CYMWYNASWR YN YMDDEOL.** Yn ystod y mis diwethaf bu ymddeoliad un a fu'n gymwynaswr a ffrind i nifer o fudiadau Llanberis. Bu Fred Jacques yn gweithio yn 'Oriol Eryri' am 26 mlynedd – fel peiranydd cynnal a chadw i Amgueddfa Genedlaethol Cymru o 1980 i 1996, pan drosglwyddwyd yr Oriol a Fred, i First Hydro a gyda hwy y bu, yn yr un swydd, tan ei ymddeoliad.

Mae llawer o fudiadau a fu'n gysylltiedig â'r Oriol yn cydnabod ei garedigrwydd tuag atynt dros y blynyddoedd. Yn eu mysg mae Côr Meibion Dyffryn Peris, Clwb yr Henoed, St. John's, y Clwb Iechyd a Chlwb Mamau a Babanod.

Mae'r rhai a fu'n trefnu'r Cyngerdd Nadolig blynyddol a'r Grotto Nadolig hefyd yn cydnabod cyfraniad Fred at lwyddiant y dathliadau hyn dros y blynyddoedd.



Tony Thomas, Rheolwr First Hydro, yn llongyfarch Fred at ei ymddeoliad.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partiön rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718788

wefan: www.ydyncig.co.uk

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570



EISTEDDFOD. Oes gennych chi'r X factor? Dyma gyfle i drigolion ardal Waunfawr arddangos eu doniau cudd yn ystod diwrnod cyfan o Eisteddfota.

Cynhelir cystadlaethau newydd yn yr Eisteddfod eleni, megis ffotograffiaeth a choginio, yn ogystal a'r cystadlaethau hwyliog, megis grŵp cerddorol creadigol, y sgets a'r unawd carioci. Cyflwynir tarian i'r tîm buddugol, rhodd gan deulu Pant Teg, Waunfawr.

Cynhelir Eisteddfod Ardal Waunfawr yn y Ganolfan, 18fed o Dachwedd. Cysylltwch â Nia Griffith ar (01286) 650092 am wybodaeth pellach.

CLWB 300. Dyma enillwyr y Clwb 300 am fis Medi: £40: Dr Huw Roberts, Liverpool House; £25: Mr Aeron Jones, 9 Croes y Waun; £10: Mr G. O. Jones, 6 Dolerddi.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod y Sefydliad a gynhaliwyd ar 7 Medi, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Hazel Carpenter o Rosgadfan. Mae Mrs Carpenter yn gwneud baneri ar gyfer eglwysi a chapeli ac roedd wedi dod â rhai gyda hi i'w dangos. Roedd y gwaith yn gywrain iawn. Eglurodd hefyd sut i baentio ar ddeunydd, a chafodd yr aelodau gyfle i wneud patrwm eu hunain ar ddeunydd. Pawb wedi cael pleser mawr yn gwneud hyn. Diolchodd y Llywydd iddi. Enillydd y raffl, wedi ei roi gan Anne, oedd Catherine.

Yn Ffestri Eglwys y Waun ar 5ed Hydref, cynhaliwyd cyfarfod dan lywyddiaeth Catherine Jones. Cyfeiriodd at Mrs Rosemary Bracegirdle, oedd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd, a dymunodd wellhad buan iddi. Darllenwyd llythyr misol y ffederasiwn a nodwyd y materion perthnasol. Dau o wirfoddolwyr o dîm Cymdeithas Cŵn Chwilio ac Achub (SARDA) oedd y siaradwyr gwadd. Cafwyd sleidiau a sgwrs ganddynt am y gwaith ardderchog maent yn ei wneud i achub pobl mewn pob math o argyfyngau. Ar ddiwedd y sgwrs daethant â dau o'r cŵn i mewn i'r Ffestri i'r aelodau gael eu gweld ac roedd pawb wedi dotio atynt. Diolchodd y Llywydd i'r siaradwyr. Enillydd y raffl, wedi ei roi gan Wenna Edwards, oedd

Alice Johnston.

Y Cyfarfod Blynyddol fydd yn cael ei gynnal ar 2 Tachwedd. **MERCHED Y WAWR.** I agor y tymor newydd ar 28 Medi, cafwyd noson hynod ddiddorol, hwyliog a chartrefol yng nghwmni John Gwynedd a Cadi, fu'n dangos lluniau ac yn dweud eu hanes ym mhriodas Hedddus a Luis ym Mhatagonia.

Daeth nifer dda ynghyd a braf iawn oedd cael gweld aelodau newydd. Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan y Llywydd, Sylvia Prys Jones. Darparwyd bara brith blasus iawn gan Irene a hi hefyd fu'n cynrychioli'r gangen yn y Pwyllgor Rhanbarth ac ym Mhwyllgor yr Anabl. Diolchwyd i John a Cadi gan Gill Wyn.

Yng nghyfarfod mis Hydref, Delyth Jones fydd yn siarad am ei gwaith gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru, ac ar 7 Rhagfyr, byddwn yn dathlu'r Nadolig yn y Bistro, Llanberis.

LLONGYFARCHIADAU i Rhian a Martin, Stad Tŷ Hen ar enedigaeth merch fach, Ella Wyn, chwaer i Dylan a Tomos, ac wyres i Menna ac Elfyn Griffith, Blaen y Nant, Stad Bodhyfryd.

NAIN A TAID. Daeth Ann a George Grundy, Fairfield, yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Georgie, i'w merch, Susie, a'i phriod, Simon.


LLONGYFARCHIADAU i deulu'r Garn ar enedigaeth mab bychan, Mabon. Y trydydd mab i Mari a Chris a brawd bach i Griff a Cai. **DATHLU PEN-BLWYDD.**

Dymuniadau gorau i Beth Greasley, Stad Pant y Waun, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 18 oed. Llongyfarchiadau a phob lwc iti i'r dyfodol., Beth.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr Gwilym Madog Jones, Bro Waun, sydd yn aros yn Plas-y-Bryn, Bontnewydd am gyfnod.

CYDYMDEIMLAD. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr a Mrs Jones, Treflys, yn eu profedigaeth o golli chwaer Mrs Jones. **PROFEDIGAETH.**

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Marion Iwan a theulu Afallon yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn iddynt. **GWASANAETH DIOLCHGARWCH.**



Rhai o blant Ysgol Waunfawr yn mwynhau yng Nglanllyn.

Bore Sul, 15 Hydref, daeth cynulleidfda dda i'r Gwasanaeth Diolchgarwch yn festri Capel y Waun. Cymerwyd rhan gan y plant a chan rai o aelodau y capel. Roedd yr ieuegaf a gymerodd ran yn dair oed a'r hynaf yn naw deg pump mlwydd oed.

YSGOL WAUNFAWR. Glanllyn. Treuliodd 32 o blant BL5 a 6, ynghyd â Mr Gareth Williams a Mrs Gwenan Dafydd, dridiau yng Ngwersyll Glanllyn ddechrau'r mis. Cafodd pawb amser da a rhaid canmol y plant am eu hymddygiad. Dyma argraffiadau dwy ohonynt:

Hydref yr ail roedd blwyddyn pump a chwech yn mynd i Glanllyn. Roeddwn yn edrych ymlaen i fynd yn ofnadwy. Ond roeddwn wedi bod y llynedd. Helpodd Mam fi i fynd â 'magiau i'r ysgol. Roedd gennyf lawer o fagiau. Cychwynasom am chwarter i ddeg a chyrhaeddodd cyn cinio.

Roeddwn yn rhannu stafell hefo Catrin, Anest a Lois. Y gweithgaredd cyntaf a wnaethom ni oedd taith ar y llyn. Roedd pawb yn cael twrn i yrru y cwch. Pwll nofio oedd yr ail weithgaredd ac roedd hogiau Bethel yn taflu pêl ar ein pennau. Ar ôl cinio roeddem yn canwio ac roedd y canŵ yn troi rownd a rownd a rownd. Yn y diwedd roedden ni yn cael ein tynnu gan gwch rasio ac roedden ni yn parcio'r cwch a neidio i mewn i'r dŵr. Roedd y dŵr yn rhewi. Yn y nos roedden ni yn mynd i'r gampfa i wneud gweithgareddau.

Nos Fawrth, roedden ni yn cael disgo ac roeddwn wedi rhoi llawer o golur. Y diwrnod olaf roedden ni yn cael cwrs rhaffau ac roeddwn yn neidio tri deg troedfedd i lawr. Roedd o yn dda iawn. Ar ôl cinio roeddwn yn gadael Glanllyn a doeddwn i wir ddim isio gadael. Roeddwn yn cael trafferth i gario fy mhethau. Roeddwn i wedi mwynhau yn ofnadwy.

ERIN YNYR

Ar yr ail o Hydref aeth 32 o blant o Ysgol Waunfawr i Lanllyn. Roedd wedi ei sefydlu ger Llyn Tegid a ddim yn bell o'r Bala.

Fy ffefrynnau i o bell ffordd oedd: 1. Cwrs rhaffau; 2. Gwneud rafft; 3. Helfa Drysor. Roedd yr ystafelloedd braidd yn fach ond roedd y gweithgareddau yn wych.

Mi wnes i fwynhau y gweithgareddau llyn yn fawr ac adeiladon ni rafft ein huanin ond disgynnais i ffwrdd yn syth i mewn i'r llyn rhewllyd.

Neuadd chwaraeon oedd un o'r rhai gorau hefyd ac enillodd ein tîm ni ar bêl-fasged.

Y Gloch. Roedd cloch yn canu bob amser bwyd a bob amser gweithgaredd. Fy hoff bryd bwyd i oedd french fries, chicken burgers, beans a donut i bwdin. mmm...

Doeddwn i ddim eisiau dod adref ar y 4ydd o Hydref a dwi'n edrych ymlaen i fynd eto flwyddyn nesaf.

GWENLLIAN JONES BL.5

**Cefnogwch
ein Hysbysebwy**



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS



**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)





Eirlys a Kathy ar gychwyn y daith o Bontrhydybont i Aberffraw.

Stori Eirlys

Saith mis yn ôl roedd Eirlys Pierce o Lanrug yn byw bywyd hynod o lawn ag egniol, ac ymhlith nifer o ddiddordebau eraill mwynhai gerdded mynyddoedd a mynychu dosbarthiadau Yoga.

Ond o fewn pythefnos o fod yn holliach fe'i cafodd ei hun yn Ward Ffrancon, Ysbyty Gwynedd, yn derbyn y newyddion syfrdanol gan ei Hymgyngorydd, Mr S. C. Leeson, ei bod yn dioddef o ganser yr ofari. O'i gwely gallai weld mynyddoedd Eryri a'i hymateb cyntaf oedd dweud,

'Bythefnos yn ôl roeddwn i'n medru cerdded ar y mynyddoedd yna.' Ateb unionsyth Mr Leeson oedd,

'Ein nod yw eich cael yn ôl ar y mynyddoedd.' Dyna'r geiriau a lynnodd ac a fu'n symbyliad i Eirlys fod yn bositif a phenderfynu concro'i hafiechyd.

Wedi derbyn llawdriniaeth lem 'nol ym mis Ebrill, gadawyd Eirlys yn wan a diymadferth yn yr Uned Gofal Dwys ond drwy eu cymorth hwy, gofal arbennig Mr Leeson a staff Ward Ffrancon, cariad a theyrngarwch Ian a ffrindiau agos, cefnogaeth aelodau o'i theulu, ond yn bwysicach fyth ei dewrder a'i hewyllys ei hun, o ddydd i ddydd dechreuodd gryfhau.

Mae bellach yn byw bywyd normal, wedi ailgydio yn ei diddordebau, yn mynychu dosbarthiadau Yoga ac yn gallu ailgerdded ambell lwybr ar y mynyddoedd!

Ddiwrnod olaf Tachwedd bydd Eirlys yn drigain oed. Nid yw am ddathlu yn y ffordd arferol, nid yw angen cardiaid na rhoddion gan ffrindiau a theulu.

'Dydw i ddim angen dim,' meddai, 'ac onibai am Mr Leeson a'i dîm a'r Athro Stuart a'i staff ar Ward Alaw faswn i ddim yn gallu cerdded cam.'

Penderfynodd Eirlys gerdded trigain milltir yn ystod cyfnod ei chemo a chyn dyddiad ei phen-blwydd, a thrwy hynny godi arian at OG08. Cronfa ymchwil i ganser gynecolegol Mr Leeson ei hun yng ngogledd-orllewin Cymru yw OG08. Bu ef ei hun yn rhedeg yn Newcastle yn ddiweddar i godi arian at y gronfa. Teimlai Eirlys mai dyma'r ffordd orau i ddiolch am y gofal gafodd hi'n bersonol ac ar yr un pryd gynnig cymorth a gobaith i eraill sydd ac a fydd, o bosib, yn dioddef o'r math yma o ganser sy'n gallu taro mor sydyn a slei.

Dewisodd Eirlys gerdded llwybrau arfordirol Ynys Môn a dilyn llawlyfr swyddogol Carl Rogers. Mae eisoes wedi cyrraedd y trigain a hynny fis cyn ei phen-blwydd! Cerddodd

o Bontrhydybont i Aberffraw (13³/₄ milltir), Aberffraw i Niwbwrch (13 milltir), Niwbwrch i Foel y Don (7¹/₂ milltir), Llanfairpwllgwyngyll i Fiwmares (7¹/₂ milltir), Biwmares i Bentraeth (12¹/₂ milltir) a Phentraeth i Foelfre (5¹/₂ milltir). Rhyw ychydig dros 59 ydy hynny, meddech chi fathemategwyr brwd – ond gan ei bod wedi mynd ar goll yng Nghoedwig Niwbwrch fe ychwanegodd hynny ddwy filltir at y cyfanswm iddi hi a'i chydymaith swyddogol ar y daith, sef ei ffrind, Kathy Rothwell.

Gan fod Eirlys wedi cyrraedd ei nod gwreiddiol o gerdded trigain milltir, ei tharged bellach yw cario ymlaen a cherdded y trigain milltir a phump sy'n weddill o'r daith, a hynny dros y Nadolig ac yn ystod y flwyddyn newydd, ond

ei phrif nod yw cyrraedd copa'r Wyddfa unwaith eto.

Camau bychain iawn oedd Eirlys yn eu gymryd i ddechrau – gosod targedau realistig iddi hi ei hun a'u cyflawni. Bellach mae'n cymryd camau breision iawn. Bu llawer ffrind agos yn gymorth i Eirlys ar ei thaith yn erbyn yr afiechyd – yn gafael dwylo, yn cadw cwmni, yn codi ysbryd. Wedi'r Nadolig daw'r flwyddyn newydd a chyn ei diwedd bydd Eirlys unwaith eto wedi cyrraedd y copa.

Dymuna Eirlys ddiolch yn ddiffuant am y rhoddion a ddaeth i law eisoes ac i'r casglyddion am eu gwaith. Os hoffech gyfrannu at gronfa OG08, cysylltwch â Eirlys Pierce, Sŵyn yr Awel, Llanrug, Gwynedd LL55 4AE cyn dydd Sadwrn, 25ain o Dachwedd, os gwelwch yn dda.

Ailgyhoeddir y penillion hyn am fod camgymeriad y mis diwethaf.
Ymddiheurwn am hyn – GWASG GWYNEDD

CAMWRI

Wedi byw a bod yn dlawd,
Bwyta bwyd â bys a bawd;
Weithiau gwledd o ginio'r Sul
Cawl o gynnffon ychain hil.

Wedi gweithio dan gytundeb,
Bod y ffyddlon dros yr undeb,
Felly hefyd dros y cyd-ddyn,
Egwyddorion ym mēr esgryn.

Gweithio'r dydd a gweithio'r nos.
Tynnu clogwyn, trin y rhos.
Gwaith a gorffwys oedd yn un,
Yn y drych roedd llun hen ddyn.

Gŵr y plas yn gas a chreulon,
Trafod dynion fel caethweision;
Wedi tynnu hyd y tennyn
Syrthiodd yntau dros y dibyn.

Diwedd stad a diwedd mawredd,
Y caethweision mewn gorfoledd
Tra'r uchelwr yn ddigalon,
Colli grym a'r hen arferion.

Anffawd fawr i ŵr mor feiddgar,
Hefyd i lywodraeth Lloegar,
Gweld y Cymry eto'n llwyddo
I feddiannu'n ôl eu heiddo.

Haleliwia i'r chwarelwr,
Felly hefyd i'r hen ffermwr,
Y blinedig yn sirioli
Wedi taflu y cadwyni.

Ond yn wir nid dyna'r diwedd;
Cario 'mlaen â'r maen dialedd
Wnaeth y senedd ar ei chyfle.
Troi ein tir yn feysydd chware.

Dyfais newydd yr ysbeilwyr,
Creu diwydiant o'r ymwelwyr;
Pobl Lloegar wrth y miloedd
Yn ailafael yn ein tiroedd.

Mae'r drafndiaeth, ffyrdd ac awyr,
Yn effeithio ar sawl creadur,
Hefyd ar y bodau dynol,
Mae'r sefyllfa'n afresymol.

Tra fod rhai yn tynnu'r tennyn
Nid peth hawdd yw gwarchod gwerin,
Tra fod arian garw'n gyrru
Bydd y dibyn eto'n sennu.

Dyna stori y camwri,
Pam na wnawn ni sylweddoli;
Dysgu gwersi o'r gorffennol,
Felly gwarchod ein dyfodol.

Awdurdodau, asiantaethau,
Dorwch glust i'n cymunedau;
Peidiwch wir bod mor anfoesol
Gwerthu Cymru fach a'i phobol.

DAFYDD CEFN COCH

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

CHWILOTA

DIGWYDDIAD HYNOD YN Y WAUNFAWR



Ar y pumed o fis Hydref 1864 ymddangosodd yr adroddiad canlynol ym *Maner ac Amserau Cymru*: *'...ar Fedi 23ain rhoddodd Margaret Jones, priod Henry Jones, Pant y Defaid, enedigaeth i fab; a braidd yr un munudau, bu eu mab hynaf farw yn ddwy flwydd a hanner oed. Priodol yw dweud "un genhedlaeth a ddaw, ac arall â ymaith". Ac hefyd, y mae y rhieni yn bwriadu bedyddio y byw ddiwrnod claddedigaeth y marw.'*

Nid peth anarferol yn yr hen amser oedd bedyddio baban ar arch ei fam, a hithau wedi marw ar yr enedigaeth. Ond dyma'r tro cyntaf i mi ddod ar draws enghraifft o frawd yn cael ei fedyddio ar arch ei frawd; os gwir yr adroddiad. Oherwydd, er chwilio trwy rifynnau o'r *Herald Cymraeg* a'r *Caernarvon and Denbigh Herald* am fisoedd Medi a Hydref 1864, nid oes unrhyw sôn am y 'digwyddiad hynod'.

Ac er chwilio cofrestrau bedydd a chladdu Betws Garmon, Llanbeblig, Llanrug a Chapel Moriah, Waunfawr, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau fod y geni a'r farwolaeth wedi digwydd yr un diwrnod. A'i celwydd, felly, a gyhoeddwyd ym *Maner ac Amserau Cymru*?

Ond yn dilyn ymweliad â'r Cofrestrydd yng Nghaernarfon, daeth y cofnodion cywir i'r amlwg. Ar Fedi 23ain 1864 ganwyd mab, John, i Henry Trevor a'i wraig, Margaret. Cyfeiriad y teulu oedd Tanyffordd, Llanbeblig. Roedd hefyd gofnod o farwolaeth ar yr un diwrnod, sef John, mab dyflwydd oed i Henry Trevor, Pendaseithin, Llanbeblig. Felly, yr oedd bachgen bach wedi ei eni ar y diwrnod arbennig hwnnw, a'i frawd hefyd wedi marw. A diawl y Wasg a fu'n gyfrifol am roi'r cyfenw anghywir i'r tad yn yr adroddiad a ymddangosodd ym *Maner ac Amserau Cymru*.

Ond mae un cwestiwn yn parhau heb ei ateb: pam fod tri enw cartref yn cael eu dyfynnu yn y cofnodion geni, marw a'r adroddiad yn y wasg? Enwir Pant y Defaid, Tanyffordd a Pendaseithin fel cartref i Henry Trevor a'i wraig, Margaret Jones. Ble'n union roeddent yn byw? A phwy tybed oedd y John Trevor, Training College, Caernarfon a Pendas, Waunfawr, a gladdwyd ym mynwent Betws Garmon dair blynedd yn ddiweddarach, ac yntau'n ddim ond ugain oed? Doedd bosibl iddo fod yn frawd i'r ddau blentyn a enwyd eisoes, gan mai John oeddent hwythau hefyd. A oedd yn frawd i Henry?

Mae'n amlwg fod Henry Trevor wedi marw cyn 1870, ond nid oes cofnod o'i gladdu ym Mynwent Betws Garmon. Ailbriododd Margaret â William Thomas (genedigol o blwyf Aber), ac erbyn 1891 roedd y teulu yn byw ym Mangor, ac yn

cadw tafarn y Coach and Horses yn Stryd y Deon. Roedd Margaret erbyn hynny yn 51 mlwydd oed, a chanddi ferch, Elisabeth, un ar hugain oed, o'i hail briodas. Yn byw yn yr un tŷ roedd John Henry Trevor, sy'n cael ei ddisgrifio fel llysfab i William Thomas. Hwn oedd y bachgen bach a fedyddiwyd ar arch ei frawd yn 1864.

Byddai'n ddiddorol gwybod mwy am hanes y teulu o'r Waunfawr, a phle'n union roeddent yn byw. Tybed oes unrhyw un o'r darllenwyr â chysylltiad teuluaid, ac wedi llunio cart achau? A beth tybed ddigwyddodd i John Henry, y chwarelwr ifanc o'r Waunfawr a oedd yn byw mewn tafarn ym Mangor?

Damwain yng Nghlwt y Bont

Tra'n chwilo am hanes y 'digwyddiad hynod' uchod, daeth yr adroddiad hwn o'r *Caernarvon and Denbigh Herald* i'm sylw:

'Fatal accident: 20th September a little boy, eleven years of age, met with an accident at this place which was, we are sorry to say, wounded fatally. The deceased was at work in the Clwt y Bont Working Slate Mills. By some means he fell between the strap and the pulley, and was drawn up by the spindle, by which his thigh was fractured, and several wounds inflicted on various parts of his body. He was attended by Dr Rees of the Dinorwic Hospital and Dr R. Jones, Caernarfon; but the injuries he had received were so severe that he died on Saturday.'

Yn od iawn, ni chaiff y plentyn bach ei enwi, ac y mae'r papur newydd yn mynd ymlaen i ddweud na ellir gosod bai ar unrhyw un am achos y ddamwain.

Mae'n anodd credu erbyn heddiw, fod plant mor ifanc yn gweithio mewn ffatrioedd, yn y chwarel ac mewn melinau, ac nad oedd nemor ddim systemau diogelwch mewn llaw i warchod rhai mor ifanc.

Yn ddiweddar, gorffenaidd ddarlenn llyfr o'r enw *The Real Oliver Twist*, sef hanes bachgen bach o wyrws yn Llundain a anfonwyd i weithio i'r melinau yn ngogledd Lloegr – ffordd hwylus o gael gwared â phlant a oedd yn fwrn ariannol ar y plwyf. Dywedir fod Charles Dickens wedi seilio ei nofel

Oliver Twist ar hanes bywyd y bachgen bach hwn.

Amgylchiadau tebyg oedd yn wynebu plant yr ardal hon hefyd, ond o leiaf roedd tad neu aelod arall o'r teulu yn cydweithio â hwy yn y chwareli a'r melinau lleol i gadw llygad arnynt.

Y Milwr Ifanc o Gwm y Glo

Daeth nifer o alwadau ffôn dros yr wythnosau diwethaf i ychwanegu rhyw gymaint o wybodaeth am hanes bywyd byr y milwr ifanc, Meirion Evans, o Gwm y Glo.

Cyn cael ei alw i'r fyddin, roedd Meirion Evans yn dilyn hyfforddiant mewn swyddfa yng Nghaernarfon, gyda'r bwriad o fod yn gyfreithiwr. Roedd yn ŵr ifanc sensitif iawn, ac yn hoff o sgwennu barddoniaeth.

Am gyfnod, bu'r teulu yn byw yn America, ond dychwelyd i Gwm y Glo fu eu hanes, a byw yno yng nghartref taid Meirion Evans. Roedd cefndryd ganddo yn Nant Peris, a chredir fod un, os nad y ddau ohonynt wedi mynd i'r weinidogaeth.

Cefais wybod hefyd fod Griff Lewis o Frynrefail wedi ei ladd ychydig ddyddiau'n ddiweddarach na Meirion, ac wedi ei gladdu yn yr un fynwent.

Yn naturiol, effeithiodd yr amgylchiad yn fawr ar y rhieni, gan mai Meirion oedd yr unig blentyn. Aeth ei fam wedd yn ddall cyn diwedd ei hoes.

Chwarelwr yn Boddi

Trwy gyd-ddigwyddiad, daw Pant y Defaid, Waunfawr i'r amlwg unwaith eto yn hanes damwain angheuol a ddigwyddodd ym mis Chwefror 1902. Tra'n mynd â wagen o rwbwl naddu i'w thaflu dros y domen uwchben Llyn Peris, aeth y wagen oddi ar y rheiliau, a thaflwyd y wagen a Griffith Jones i'r llyn. Er gwneud pob ymdrech i'w achub, fe'i boddwyd.

Cynhaliwyd y cwest yn Ysbyty Chwarel Dinorwig, ddeg diwrnod wedi'r boddi, gan na chafwyd y corff o ddŵr y llyn am rai dyddiau. Un o'r tystion a welodd y ddamwain oedd brawd-yng-nghyfraith Griffith Jones. Daethpwyd i'r casgliad mai boddi trwy ddamwain oedd achos y farwolaeth, ond argymhellwyd i awdurdodau'r chwarel osod rhaff o amgylch ymyl pob tomen yn y dyfodol i geisio atal digwyddiadau cyffelyb.

Fel yr oedd y golofn ar fin cael ei hanfon i'r wasg, daeth gwybodaeth i'm llaw yn profi pwy oedd y Began Ifan a roes ei henw i drigolion y Waunfawr! Felly, yn ôl i'r un ardal y mis nesaf. Cofiwch anfon unrhyw wybodaeth neu ymholiad ynglŷn â hanes lleol i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Byddwch yn llawer
gwell allan hefo Ni!

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN			
IMPORTS	GERMAN	SWEDISH	
			
Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...			
Ceir Benthg AM DDIM			
Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD (01286) 673559 www.a-v-w.co.uk			
Car Service			
BOSCH Service			
VOLVO MERCEDES SAAB			

YSGOL BRYNREFAIL



Disgybl y Mis – Yr Adran Gymraeg

Llongyfarchiadau gwresog i Bleddyn Clarke o Flwyddyn 9 ar ennill gwobr disgybl y mis yr Adran Gymraeg. Rhoddir y wobwr yn fisol i'r disgybl mwyaf ymdrechgar ym mlynnyddoedd 7, 8 a 9.

Ar ôl cryn drafod yn yr adran, penderfynwyd fod Bleddyn yn llawn haeddu'r anrhydedd am ei frwdfrydedd a'i ymdrech diflino yn ystod y

mis diwethaf. Fel gwobr, enillodd becyn Uned, 5 yn llawn o drysorau amrywiol – o dorts i radio, o gloc personol i sedd i'w ffôn symudol!

Pwy, tybed fydd enillydd y mis nesaf??

Nawr te Bleddyn, pam ti'n meddwl dy fod ti wedi cael y wobwr yma?

Dwi'n meddwl am fy mod i wedi gweithio'n galed yn y gwersi'n ddiweddar.

Beth ydi dy hoff lyfr?

Dim byd penodol, ond rwy'n hoff o ddarlenn comedïau.

A ffilm?

Y ffilm rasio, *2 Fast 2 Furious*.

Oes gen ti hoff fwyd?

McDonalds!

Sôn am fwyd, rwy'n dallt dy fod ti'n byw ar fferm. Wyt ti'n gweld dy hun fel ffermwr?

Wel, mae gen i ddeg dafad, ac rwy'n cael naw mochyn mewn ychydig.

Be ti'n mynd i wneud gyda'r moch?

Gwerthu nhw, siŵr iawn!

BERWYN JONES BL.13

Mademoiselle Melanie Guillemin Pennaeth Ffrangeg



Ble oeddech chi'n byw o'r blaen?

Yng ngogledd-ddwyrain Ffrainc, mewn pentref bychan o'r enw Reims.

Pryd ddaethoch chi i Gymru?

Yn 1999. Fy mwriad oedd dod drosodd i ddysgu Saesneg ond wedi i mi gyrraedd penderfynnais ddysgu Ffrangeg yn lle.

Sut ydach chi'n ymdopi gyda'r iaith?

Dechreuais gan ddysgu yn Harlech. Yna es i ar gwrs i wneud lcfel A mewn Cymraeg i oedolion.

A oedd yna wahaniaeth rhwng dysgu yn Ffrainc a dysgu yng Nghymru?

Ni ddysgais yn Ffrainc, ond mi wnes fy BA yn Ffrainc cyn

gwneud ymarfer dysgu ym Mhrydain.

Ers sawl blwyddyn rydych chi wedi bod yn dysgu?

Chwe mlynedd.

Beth oedd eich argraffiadau cyntaf o'r ysgol?

Roedd yr argraff cyntaf yn un da iawn. Sylweddolais bod y plant yn hyderus ond mewn ffordd dda, a bod yr athrawon yn gyfeillgar iawn.

Beth ydi eich hoff air Cymraeg?

BENDIGEDIG!!!

GWEN ALUN
A KATIE PRITCHARD

Enillwyr y Clwb Cant

Gorffennaf

£45: (39) Gwyn Williams, Peswylfa, Llanberis; £27: (54) Eifion Harding, Y Winllan, Penisarwaun; £18: (178) Delyth F. Thomas, Haulfryn, Llanberis

Awst

£45: (3) Dee Edwards, Wrth y Becws, Cwm-y-glo; £27: (165) Nancy Jones, Fflat 79, Maes Padarn, Llanberis; £18: (50) Gwyn Williams, Preswylfa, Llanberis.

Medi

£45: (166) Diana Pritchard, 11 Stryd Ceunant, Llanberis; £27: (75) Howyn P. Jones, Gardd y Rhos, Llanrug; £18: (2) Selwyn Lloyd, 15 Bryn Moelyn, Llanrug.



Llwyddiant Rygbi

Llongyfarchiadau gwresog i 4 o fechgyn yr ysgol ar gael eu dewis i gynrychioli Tim Rygbi Ysgolion Gwynedd a Môn. Yn y

llun gwelir y bechgyn ffodus: Dewi Tomos, Dafydd Ngaia, Cai Jones a John Gareth Jones. Edrychwn ymlaen i glywed am eu llwyddiannau!



I Fyd y Bêl Gron

Yn ddiweddar, chwaraeodd Tim Pêl-droed Blwyddyn 11 yn erbyn Ysgol Dyffryn Nantlle, dan arweiniad y capten, Gethin Phillips. Mewn gêm gyffrous fe

lwyddodd yr hogiau i ennill o 6 gôl i 2! Y sgorwyr oedd Gethin Phillips (2), Iwan Rhys (1), Llion Bryn (1) a Luke Pleming (1). Llongyfarchiadau i chwi fel tîm.



Hoci Dan 18

Chwaraeodd tîm dan 18 yr ysgol ddwy gêm yn ddiweddar. Y gyntaf yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen, ble cafwyd gêm agos a sgôr o 1-1. Roedd yr ail gêm yn erbyn Ysgol y Berwyn, ble

cafwyd sgôr terfynol o 0-0. Yn dilyn hyn, dewiswyd dwy o'r tîm i ymuno â charfan Gwynedd dan 18: Katie Williams a Lowri Hughes Jones o Flwyddyn 12.

Llongyfarchiadau mawr i chwi'ch dwy.


Ymweliad â Theatr Gwynedd

Yn ddiweddar aeth llond bws o ddisgyblion Ysgol Brynrefail i Theatr Gwynedd i wyllo perfformiad o addasiad John Ogwen o nofel boblogaidd Eirug Wyn, *Bitsh*. Nofel i oedolion oedd hon, wrth gwrs, ac roedd nifer o elfennau aeddfed a heriol iddi, ond llwyddodd John Ogwen i drosglwyddo'r cyfan yn slic i gyfrwng y ddrama lwyfan.

Roedd ymddygiad ac ymateb y disgyblion yn ardderchog, ac roeddent wedi gwrrioneddol fwynhau'r perfformiad caboledig. Isod ceir adolygiad un o'r disgyblion.

Wedi cryn drafferth yn archebu tocyn i'r ddrama hon, gan fod pob sioe ym Mangor wedi gwerthu allan, cymerais fy sedd yn dawel a disgwylais yn awchus am esboniad pam fod y ddrama hon mor boblogaidd.

Ar wahân i fân broblemau, yn



wir cefais fy siomi ar yr ochr orau.

Am nofel a dybiais oedd yn ddewis eithaf rhyfedd o ran cynnwys a ffurf i'w llwyfanu, roedd trosiad yr actor, John Ogwen, o stori gignoeth Eirug Wyn yn llwyddiant yn fy marn i.

wrth iddo ddechrau ar ei ddeffroad rhywiol. Daw Abi yn fwy nwydwyllt wrth i ddwy fenyw gael eu cyflwyno i'w fywyd - Buddug Wyn (Rhian Blythe), sy'n ferch ysgol boblogaidd, brydferth, a'i Anti Mabel (Catrin Fychan), sy'n ddynes ganol oed wedi ysgaru. Mae'r plot yn dilyn datblygiad perthynas Abi â'r ddwy yma, sy'n arwain i fyny at ddiwedd trasediol tu hwnt.

Cawn berfformiadau cynnil ac addas gan yr holl actorion, sydd hefyd yn cynnwys Carwyn Jones, Eilir Jones, Mari Wyn a Maldwyn John. Delia'r cymeriadau â sefyllfaoedd dwys a thrist tu hwnt, ond roedd elfen gref o hiwmor yn dal yn amlwg ym mherfformiadau'r cast, sydd yn gryfder pendant yn y ddrama hon.

Dyma ddrama ddwys, bwerus a ffraeth ar brydiau, sy'n siŵr o apelio at ystod eang o oedran.

CAI DYFAN

Profiad Gwaith Blwyddyn 11


Yn ystod wythnos olaf mis Medi mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 11 wythnos o brofiad gwaith mewn amrywiol safleoedd.

Derbyniwyd adroddiadau hynod ganmoladwy gan y disgyblion a'u cyflogwyr, a

dymuna'r ysgol ddiolch i'r holl unigolion a roddodd o'u hamser i sicrhau cyfnod a phrofiadau buddiol i'n disgyblion. Mwynhawyd cyfleoedd newydd i ddysgu sgiliau newydd ac i feithrin perthynas waith iach gydag oedolion. Dyma luniau rhai o'r disgyblion wrth eu gwaith:




Liam wrth ei fodd gyda chwmni Martin Glyn o Frynrefail.



Olivia'n brysur yn dylunio gyda chwmni Ap Tomos, Bangor.

Sera a Dylan yn cae hoe fach yn y Gelli Gyffwrdd.



Hefin yn brysur yn Seiont Nurseries.



Carl yn crafu ychydig wrth i Dylan Davies, Llanberis, ei ddysgu sut i blastro.



TUDALEN RYGARUG

Pam Ymaelodais di gyda Rygarug?

Mi ymaelodais gyda Rygarug yn 2004. Tydi fy chwaer ddim yn aelod o Rygarug. Roeddwn i'n aelod llynedd a mwynheais yn fawr. Roeddwn yn mynd i'r dosbarthiadau drama, dawnsio disgo, a dawnsio stepio.

IOLA BRYN JONES
Bl.5 Ysgol Gwaun Gynfi

Mi nes i ymaelodi efo Rygarug yn 2004. Roedd fy mrawd mawr yn actio'n y sioe *Digon Teg*. Hoffais wneud y ddwy sioe ddiwethaf. Dwi'n mynd i'r dosbarthiadau Drama, Côr, Newyddiaduron, Amlgyfrwng, a chlocio. Mi nes i ymaelodi efo Rygarug i gael hwyl efo fy ffrindiau.

BETHAN ROBERTS
Bl.5 Ysgol Llanrug

Ymaelodais i â Rygarug yn 2005. Tydi fy mrodyr ddim yn aelodau. Roeddwn yn y sioe *Gerallt Gymro* llynedd ac roedd o'n hwyl! Dwi'n mynd i'r dosbarthiadau Drama, Côr, Cyfrifiaduron a Newyddiaduron. Ymaelodais â Rygarug oherwydd roeddwn eisieu gwneud pethau gwahanol.

HANNAH TULLIVER
Bl.5 Ysgol Llanrug

Y Gornel Broblemus....

Annwyl Anti Jen ac Anti Beti, Dwi newydd symud i ysgol newydd a dwi'm yn nabod neb. Mae gennai syniad o enwau athrawon a rhai o'r disgyblion yn fy nosbarth. Ond, sgennai'm ffrindiau iawn. Dwi ar ben fy hun amser brec a chinio a mae pawb yn chwerthin ac yn galw enwau arna i. Be alla i wneud i gael ffrindiau newydd ac i blant beidio galw enwau arna i?

Oddi wrth,
Person Trist.

* * *

Ateb: Annwyl Person Trist,

Os wyt ti eisieu gwneud ffrindiau, wel ymuna gyda Rygarug! Mae llawer o dy ysgol di wedi ymuno yn barod! Mi wnei di lawer o ffrindiau a chael hwyl yn gweud y gweithgareddau! Mi all di ymuno efo'r grwpiau newyddiaduraeth neu amlgyfrwng, côr, drama neu hyd yn oed dawnsio! Os oes gin ti ddiddordeb, tyd i Ysgol Gynradd Llanrug ar nos Fawrth rhwng 5-6 i'n grŵp ni!

Gobeithio ein bod ni wedi dy helpu rywfaint, a paid â phoeni gormod. Hwyl!

Oddi wrth,
Anti Jen ac Anti Beti
xx

TOP TEN MIS TACHWEDD

Awduron Cymraeg a Saesneg aelodau Rygarug

T. Llew Jones: *Barti Ddu*, *Yr Ogof Dywyll*

Jacqueline Wilson: *The Suitcase Kid*, *Double Act*

Bethan Gwanas: *Sgôr*, *Llinyn Trons*, *Pen Dafad*

J. K. Rowling: *Harry Potter*

Roald Dahl: *Matilda*, *Charlie and the Chocolate Factory*

Enid Blyton: *Famous Five*, *Secret Seven*

Brenda Wyn Jones: *Sais ydi o Miss!*

Michael Morpurgo: *The Butterfly Lion*

Allan Ahlberg: *The Giant Baby*

Phillip Pullman: *The Scarecrow and His Servant*

Cyfweliad Gaynor Ellis Williams, gyda Chris Roberts ac Elain Roberts

c. Heb roi gormod i ffwrdd, am beth mae'r sioe, *Gwyrdd*, yn sôn?

a. Mae'r sioe yn trafod problemau'r amgylchedd, ond mewn ffordd ddoniol (gobeithio!), drwy ddilyn hanes dau deulu hollol wahanol.

Pam *Gwyrdd* fel enw'r sioe?

Doeddwn i ddim yn chwilio am enw wrth ddechrau meddwl am y sioe, ond o fewn pum munud, dyma'r enw '*Gwyrdd*' yn llamu i fy mhen ac yn gwrthod mynd oddi yno!

c. Ble cawsoch chi eich ysbrydoliaeth tra yn ysgrifennu'r sioe?

'Dwi'n credu fod yn rhaid i awdur gredu yn ei neges o'r galon ac mae tynged y blaned a'n triniaeth ni o anifeiliaid, yn enwedig, yn fy mhoeni yn fawr. Mae rhai pobol, wrth gwrs, yn ffodus o fedru deall yr hyn y mae anifeiliaid yn ceisio ei ddweud wrthym... ond bydd yn rhaid i chi ddod i Theatr Gwynedd i ddeall mwyl!

c. Ydych chi'n hapus hefo'ch gwaith?

a. Wel, wrth ysgrifennu, mi oeddwn i'n trio cynnwys ffeithiau gwir, mewn dull a fyddai, gobeithio, yn gwneud inni chwerthin, ond weithiau yn mynd at ein calon hefyd. Mi wnes i chwerthin a chrio wrth ysgrifennu'r geiriau a 'dwi' mond yn gobeithio y bydd pawb, o bob oed, yn y gynulleidfa yn medru rhannu'r profiadau yma.

c. Mae'r sioe yn cael ei pherfformio yn Theatr Gwynedd y flwyddyn nesaf, sut mae hynny'n teimlo?

a. Anrhydedd ofnadwy! Methu Coelio! Ond mi rydwi'n GWYBOD y gwnaiff plant Rygarug roi sioe arbennig inni!

Colofn y Plant

Clwtyn Criw Triw

Ein colofn newydd sbon danlli ar gyfer plant *Eco'r Wyddfa*

Annwyl Blant,

'Does w'bod yn y misoedd nesa' 'ma beth fydd gen' i yn y golofn, ond y tro hwn 'r ydw' i ishio sôn wrthyh am GYNFFONNAU, neu 'gwnffonnau' fel 'r ydan ni'n ei dd'eud! Tybad pam fod cynffon fawr flewog gan wiwer? I be' mae 'cwnffon' yn dda? Pam fod buwch ishio cynffon? Wyddoch chi yn Ynys Manaw fod cathod heb gynffonna'!

Yr hanas ydi' fod Noa wedi hel dau o bob anifa'l i'r Gwch fawr a adeiladodd pan ddechreuodd hi arllwys bwrw g'law am wsnosa', a boddi'r rhan fwy' o gyfandir Asia (hanas gwir bob tam'ad), ac mai'r creaduriaid ola' i gyrra'dd yr 'Arch' - y Gwch, oedd dwy gath,

ond 'r oeddynt ar ei hól hi braidd, ac fel 'r oedd Noa yn cau'r drws, whow!, whiw!, gwich fain a naid, 'r argianiaetholeithus, fe dorwyd eu cynffonna'n glir oddi wrth weddill eu cyrff. Dyna pam meddan nhw imi fod cathod Ynys Manaw, (yr Eil o' Man), ond hefo stwmpia' o gynffonna'! Be' wnewch chwi o hyn 'na 'ta?

Rwan dyma rh'wbath bach i chwi ei 'neud, gan obeithio eich bod yn mwynhau darllan ECO'R WYDDFA. 'R ydw' i'n casglu stampia' post o wledydd sy' hefo llunia' gwiwerod arnynt. Dyma rai stampia' sy' gennyf mewn casgliad a gadwad mewn albwm stampia'.



BETH 'R YDACH CHI'N EI GASGLU?

Danfonwch ffotograff, eich enw, cyfeiriad yn llawn, a'ch oedran, a beth 'r ydych yn ei gasglu atom i ECO'R WYDDFA. Mae cyfeiriada' ar ga'l ar yr ail

dudalen. Ys gwn i a fydd eich llun a'ch hanes yn y rhifyn nesa' o ECO'R WYDDFA, neu'n y misoedd sy' ar ddwad?

Hwyl, ac hyrdigyrdi-lliwgar,
SBONACH BACH

Newyddion o Rygarug.....

Mae Rygarug wedi ailgychwyn y Tymor hwn gyda dosbarth newydd sbon - newyddiaduraeth. Mae dau grŵp - Cynradd ac Uwchradd, a ni fydd yn gyfrifol am y dudalen yma! Mwynhewch!

Yn anffodus, dros yr haf ffarwelion ni gyda'n Tiwtor Cerdd, Bari Gwiliam. Ond, croesawn Sian Wheway fel y Tiwtor newydd! Pob hwyl i chi.

Ffarwelion ni hefyd gyda'r Trefnydd, Elin, ond, croesawn Sian Jones fel y Trefnydd newydd. Sian hefyd sy'n gyfrifol am y dosbarthiadau Newyddiaduraeth.

Bydd sioe flynyddol Rygarug

yn cael ei pherfformio yn Theatr Gwynedd ar y 4ydd a'r 5ed o Ebrill 2007, felly cadwch y ddyddiadau yna'n rhydd!

Gwyrdd yw enw'n sioe ni eleni, a sgriptwyd gan ein tiwtor drama, Gaynor Ellis Williams. Edrychwch ar gyfweliad Rygarug â Gaynor am fwy o wybodaeth.

Bydd y Galeri yng Nghaernarfon yn rhoi dangosiad o ffilmiau byrion a wnaethpwyd gan aelodau Rygaug yn y dosbarthiadau Amlgyfrwng y llynedd. Tachwedd yr 8fed fydd y dangosiad, am 5.30.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Medi oedd Mrs Eiriona Williams, Glyn Euron. Y rhif oedd 11. Llongyfarchiadau.

BINGO. Diolchir i bawb a gefnogodd y Noson Bingo. Gwnaed elw o £100 i Gronfa'r Pensiynwyr.

FFAIR NADOLIG. Cynhelir y Ffair yn y Neuadd Gymuned, nos Wener, 17 Tachwedd am 6.30. Bydd amrywiol stondinau a nwyddau ar gyfer y Nadolig. Mynediad 50c i oedolion; 20c i blant. Croeso cynnes i bawb.

PEN-BLWYDD YN 18 OED.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Luke Hughes, Aljen, ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed ar 6 Tachwedd.

Llongyfarchiadau hefyd i Jenny Hamer, Stablau, hithau yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar 25 Tachwedd.

Pob bendith i'r ddau ohonoch. NAIN A TAID. Llongyfarchiadau i Arwel a Carys, Cae Eboni, ar ddod yn nain a thaid am y pedwerydd tro. Ganwyd mab bychan, Joseff Meredydd, i Dafydd a Rhiannydd, brawd bach i Megan Wynne. Pob bendith i chwi fel teulu.

PROFEDIGAETH. Ein cydymdeimlad llwyraf â Mrs Glenys Hughes, Caernarfon, ac â Janice a Michael, Sioned a Martin a Siôn, Mari a Paul ar eu profedigaeth o golli gŵr annwyl, tad a thaid hoffus, sef Mr Edgar Hughes.

ESTYNNIR ein cydymdeimlad llwyraf hefyd â Jean a Gwynfor a'r teulu oll yn eu colled o golli cefnder annwyl, Stanley Roberts o Ddeiniolen.

DIOLCH. Dymuna Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryn Tirion, ddiolch o

galon i Liz ac Eric a'r teulu, a phawb a fu mor garedig wrthi ar achlysur ei phen-blwydd arbennig. Cafodd amser bythygofiadwy yng nghwmni'r teulu a ffrindiau. Ymlaen am y 90 rŵan, Mrs Jones. DIOLCH. Dymuna Nia a Kelvin o Gwm-y-glo ddiolch o galon i'r ddau deulu a ffrindiau o Gwm-y-glo, Penisarwaun a Bethel am y llu cardiau a'r anrhegion hardd i'w merch fach, Gwenllian Medi. Diolch yn fawr.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr oedd:

Gwen Roberts, Weirglodd Goch, Glenys Williams, Trem Cynfi; Dennis Roberts, Cytir, Brynrefail. Gobeithio fod y Calendr yn gwibio ar ei hynt erbyn hyn. Gellir prynu diwrnod am £1 a gobeithir gwerthu'r 365!

Cynhelir *Noson Wasael ac Ocsiwn Nadolig* nos Iau, 30 Tachwedd, yn y Neuadd Gymuned. Bydd yno ganu carolau, eitemau gan unigolion a phwnsh a mins pei. Felly dowch atom i groesawu'r Wyl Nadoligaidd ac i brynu yn yr Ocsiwn.

PLYGU'R ECO. Dymunir diolch i Swyddogion yr Eglwys am gael defnyddio'r Neuadd i blygu rhifyn Hydref. Diolch hefyd i'r ffyddloniaid a phlygwyr newydd a ddaeth i blygu a sicrhau gorffen erbyn 7.30. Diolch o galon i bawb. CYFLWYNWYD sicr am £1,500 er cof am Iris Williams, Cae'r Bleddyn, a fu farw'n ddiweddar, i gynrychiolydd o Breast Cancer Care Cymru - elusen sy'n rhoi cymorth ymarferol i unrhyw un sy'n cael ei effeithio gan ganser y fron. Am fwy o wybodaeth am yr elusen hon gellir cysylltu â nhw ar y rhif: 0845 077 1894.

Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfu'r Cyngor ar Fedi 19eg gyda'r Cyngh. Dafydd Wh. Thomas yn cadeirio. Ef hefyd oedd yn clercio ar y noson yn absenoldeb Mrs. Mair Lloyd Hughes.

Cafwyd adroddiad ar y pwyllgor gyfarfu ddiwedd mis Awst ym Mhwll Moelyn i drafod y sefyllfa yno. Y gobaith yn y dyfodol agos yw gwneud cryn welliannau i'r cae chwarae hwn. Braf oedd gweld nifer o blant a phobl ifanc wedi dod yno i gyfarfod y cynghorwyr ac i leisio barn a chynnig awgrymiadau.

Derbyniwyd gwybodaeth fod Cyngor Arfon wedi caniatáu y ceisiadau cynllunio canlynol:

- Addasu ac ymestyn cyn-adeilad amaethyddol yn Fferm Hafodlas, Ceunant, a'i droi yn dŷ.
- Estyniad i gwrtil Bryn Ffridd, Tan y Coed.
- Adeiladu 6 tŷ fforddiadwy ger Hafod Glyd, Hermon, Llanrug.

Ystyriwyd y ceisiadau newydd canlynol:

- Adeiladu modurdy yn 8 Glanffynnon, Llanrug - dim gwrthwynebiad cyn belled nad yw'n effeithio ar fwynderau'r tai cyfagos.
- Codi estyniad dau lawr yn 7 Tai Trefor, Tan y Coed - dim gwrthwynebiad, ond mynegwyd pryder ynglŷn â chysiau dŵr o gwmpas y cwrtil.
- Codi estyniad dau lawr yn Glanffrwd, Ffordd yr Orsaf, Llanrug - dim gwrthwynebiad.
- Codi 4 tŷ ar lain o dir ger Tai Bryngwyn, Tan y Coed - gwrthwynebu oherwydd
 - a) fod y safle o'r tu allan i'r ffin datblygu, a byddai caniatáu yn ymestyn patrwm llinynol yr anheddiadau yn ardal Bryngwyn a Than y Coed.
 - b) Nad yw adeiladwaith y tai yn adlewyrchu cymeriad y tai cyfagos.

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynlluniau Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

AGE
Concern

Age Concern Gwynedd a Môn
Tŷ Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Mae Age Concern Enterprises Ltd wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethu Ariannol (IFS) ar gyfer yswiriant cyffredinol. Mae'n gweithredu o tua 350 o Age Concern lleoliadau ledled y DU

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

c) Problemau parcio a thraffig yn yr ardal.

Derbyniwyd adroddiad ar ymchwiliad Cyhoeddus Lleol i dir ger Ffordd Bryngwyn a fwriedid ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Unedol.

Cytunwyd fod y Cyngh. Avril Jones, Delyth Ross, Eryl Roberts a'r Clerc yn cael cyfle i fynychu Sesiwn Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

Mae Mantell Gwynedd yn cynnal cymorthfeydd gyda'r Comisiwn Elusennau a gobeithir y bydd y Cyngh. Dafydd Wh. Thomas a Goronwy Hughes yn mynychu.

Penderfynwyd anfon am fwy o wybodaeth cyn hynny.

Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd am wybodaeth ynglŷn â'r datblygiadau diweddaraf ynglŷn â safle Glyn Rhonwy, gan y byddai unrhyw ddatblygiad sylweddol yn effeithio ar gymuned Llanrug.

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal am 7 o'r gloch, nos Fawrth, Hydref 17eg, yn Ysgol Gymuned Cwm y Glo.

Cefnobwch
ein
Hysbysebwyd

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Ffyrnigo ac Ymosod

Dros flwyddyn yn ôl d'wedodd Mary, warden eglwys Santes Helen, Penisarwaen, wrthyf am yr helbul a fu hefo *jacdo* a fynnai wneud ei orau du drwy ymosod ar addolwyr, a hynny ym mhorth yr eglwys! Mis Mai eleni, ail-holais y foneddiges glên ynghylch ymddygiad y *jacdo*. Diolch iddi am yr hanes ac am egluro'n ddifyr tu hwnt bod *jacdoaid* wedi mynd ati i nythu dan lechen yn nho'r eglwys ac i ddau o'r cywion gael eu hunain wedi eu caethiwo yn y clochdy, a'r rhieni'n methu'n eu byw â chael mynediad atynt. 'Does ryfedd i un o'r rhieni pluog fyllio'n lân, (gwyn y gwêl y frân ei chyw!), ond wrth geisio talu'r pwyth yn ôl, pobol, druain bach, fu dani. Yn wir, ni fu i grafangau'r aderyn beri niwed yn ormodol – hedfan gan grawcian yn uchel a chyffwrdd ambell benglog dynol a wnaed!

Nid felly y bu hi hefo'r ffotograffydd medrus o Sais, sef Eric Hosking, tra'n tynnu lluniau *tylluan frech* yn nhymor magu cywion. Bu iddo ef golli golwg mewn un llygad, gan i un aderyn ymosod arno.

Y cofnod cynharaf y t'rawyd arno, sy'n dystiolaeth dibynadwy am adar yn ymosod ar anifeiliaid a phobl, ydyw hwnnw, a geir yn *Y Cymro* Mehefin 12ed, y flwyddyn 1902, t.7 col. 3, ia, *hanes digwyddiad lled anghyffredin*, a d'wedir bod gan ddwy *tylluan lwyd-goch*, (sef *tylluanod brech*), nyth mewn coedwig yn agos i Aberdaugleddau, yn yr hen sir Benfro. Digwyddai fod ffordd yn mynd heibio'r nyth ac ar amryw achlysuron ymosododd y ceiliog aderyn yn ffyrnig ar gŵn elent drwy y coed, a gwnaeth hynny unwaith wrth draed gwraig fonheddig, gan daro ei hadn yn ei herbyn wrth hedfan, a gadael, (sylwch da chwi!), rhai o'i phlu ar ei hól yn y fased a gariai'r foneddiges!

Fel y flwyddyn cynt roedd yr adar wedi nythu'n yr un man, a mentrodd y ceiliog *tylluan frech* nid yn unig i daclo cŵn ond rhuthrodd yn fileinig ddydd golau

ar bobl a gerddent y ffordd. Torrodd glust bachgen...ac anafu ei wyneb mor ddrwg fel yr ofnir y bydd iddo golli ei olwg. Y diwedd fu i'r aderyn druan gael ei saethu'n farw gelain.

Ond pam ymosod? Prawf digamsyniol debygaf i o'r reddf guddedig mewn adar i amddiffyn y rhai bychain o'u heiddynt, a rhybudd i eraill 'Cadwch draw! Fy rhai i ydy'r rhain!'

Ceir yn ogystal rhai adar yn ymosod ar ei gilydd. Clochdar fydd eraill er mwyn dychryn eu gwrthwynebwyr. Dangosent drwy nodau uchel a chyflym iddynt gael eu cythruddo, a rhybuddient eraill rhag dyfod yn rhy agos atynt. Gwarchod eu tylwyth ydyw'r diben. Dyna'r *gornchwiglen*. Os peryglir ei nyth, a'r cywion ynddo, cymer arni ei bod wedi brifo'i hadn, a bydd yn llusgo mynd ar hyd y ddaear. Gwna ddigonedd o swm. Gwna hynny er mwyn (a) tynnu eich sylw; (b) eich arwain oddi wrth y nyth, a'r cywion!

Wrth ymosod, neu wrth-ymosod, y mae rhai adar yn gofalu am yfory, a pharhâd eu rhywogaeth. Heb ofal o'r fath, a'r reddf amddiffynnol o'u heiddynt, mi fyddai'n domino go iawn ar nifer o adar, a chreaduriaid, ran hynny, ym myd Natur.

Blodau Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: williamsgw@parliament.uk

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



Quality Hotel Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)

– rhan o CHOICE HOTELS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Pryd i Bawb
Bwffe blasus o safon
at bob achlysur

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes

CERID MACKINNON

Plas Tŷrion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY

(01286) 673190



BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partiön, triapiau ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

O SIAMBAR SELWYN

Mi ges i'r fraint a'r anrhydedd ddechrau'r mis yma o gael rhoi anerchiad yn y Senedd. Oedd, mi roedd o'n brofiad diddorol, ac mi ges i wrandawriad boneddigaidd iawn gan yr aelodau - tua 70 ohonyn nhw. Hyfryd cael datgan hefyd na fu i mi glywed 'Order, Order' na'r un gorchymyn arall drwy gydol fy anerchiad.

Na, peidiwch â camddeall! Nid yn ffau swnllyd gwerylgar San Steffan y bûm i, nac yn Senedd y Bae yng Nghaerdydd, ond yn Senedd-dy Owain Glyndŵr ym Machynlleth, yn annerch y Clwb Llenyddol llwyddiannus, sy'n dathlu ei ben-blwydd yn ddeugain oed eleni.

Nid dyma'r tro cyntaf i mi gael y cyfle i ymweld â'r Gymdeithas hon, ac rwy'n sylweddoli bod yna awyrgylch arbennig i'w deimlo yno, a nifer yn dod o gryn bellter i'r cyfarfodydd. Rhaid cyfaddef hefyd bod cyfartaledd ohonynt dros eu hanner cant.

Ond yn gyffredinol, dwi wedi sylweddoli yn ystod y ddwy flynedd ddiwetha ma, o grwydro i gymdeithasau o gwmpas Cymru, bod yna fwy yn mynychu cyfarfodydd cymdeithasau llenyddol. Beth ydi'r rheswm ys gwn i? Ydi pobol o'r diwedd wedi hen ddiflasu ar y rhaglenni gwael a

gawn ni yn nosweithiol o grombil y set deledu, ac wedi hen flino ar weld yr un rhaglenni yn cael eu dangos drosodd a throsodd.

Roeddwn i wedi addo i mi fy hun nad oeddwn i am dderbyn cymaint o wahoddiadau eleni, ond un gwael ydw i am wrthod os ydi'r dyddiad yn gyfleus. Dwi wedi gwneud un amod, sef i beidio â mynd yn bell o gartref yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror, oherwydd dydw i ddim yn or-hapus o deithio yn y car ar ffyrdd yn un sglefr.

Ydi pob cangen o Ferched y Wawr yn cyfarfod ar nos Fawrth, ys gwn i? Bobol bach mae'n anodd cael nos Fawrth gwag, a nos Wener o ran hynny! Ond chwarae teg iddyn nhw, dwi eisoes wedi cael gwahoddiad i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda phedair cangen yn barod, ac wedi llwyddo i drefnu dyddiadau sy'n hwylus. Yr unig broblem fydd y gor-wledda, ac fel arfer mae'r anerchiad yn dilyn y wledd.

Mae'n rhyfedd, wrth grwydro o le i le, fel yr ydw i'n cyfarfod â rhai efo cysylltiad â Bro'r Eco, a rhai sy'n derbyn yr Eco yn rheolaidd. Pawb yn gwerthfawrogi ein papur bro ac yn falch iawn bod ei ddyfodol yn ddiogel.

Yn ystod mis Hydref rwy'n gobeithio cael mynd i'r Mod

(Eisteddfod flynyddol yr Alban) i gynrychioli'r Orsedd. Methais fynd llynedd pan gynhaliwyd yr Wyl yn Stornaway. Eleni fe'i cynhelir yn Dunoon, lle rydw i wedi bod sawl tro ar wyliau gyda'r cwmnïau lleol. Gyda llaw mae Cwmni Seren Arian yn trefnu bws fynd i Gaerdydd ar benwythnos Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008. Fe gynhelir Seremoni'r Cyhoeddi ar 16 Mehefin, 2007.

Mae 'na amryw wedi gofyn cwestiynnau diddorol i mi ynglŷn â'r Eisteddfod a'r Orsedd a chyfrifoldebau yr Archdderwydd. Mi geisia i ateb rhai yn ystod y misoedd nesa 'ma. Mi alla i eich sicrhau chi 'mod i'n eitha parchus fy ngwisg o dan y wisg ddrudfawr - cyn lleied ag sy'n bosib mae'n wir, gan ofalu bod yn barchus rhag ofn i unrhyw anffawd ddigwydd.

Maddeuwch air byr am y tro, ond mi rydw i ar gychwyn am ychydig o seibiant i'r lle arferol - sef Cala Bona ar Ynys Majorca, gan obeithio y bydd 'Ha bach Mihangel' yn parhau yno. Fel arfer mi fydd hi'n dywydd eitha dymunol yno yr adeg hon o'r flwyddyn - ddim yn rhy annioddefol o boeth.

Ond cyn pacio mi ga i gyfle i ymweld â Chymdeithas Cymru Fydd, Caergybi, a Chymdeithasau Llenyddol Y Waunfawr ac Abererch. Mae'n braf cael

gwahoddiad i wahanol lefydd a sylweddoli, er mor gyfarwydd ydi'r enw, na fûm i erioed yno o'r blaen. Hyd y gwn i fûm i erioed yn Abererch, hyd yn oed basio trwodd. Oes 'na gamerâu yno, ysgwn i?

Ond y noson fawr yn sicr fydd y noson a drefnir i ddathlu buddugoliaeth Prifardd Abertawe ym Methesda. Mae gen i gof mynd i gyfarfod cyffelyb yno sawl blwyddyn yn ôl yng nghwmni yr hen gyfaill, W.J. Davies, a oedd yn byw ym Methel ar y pryd ac yn athro Cymraeg yn Ysgol Dyffryn Ogwen - Wil John.

Yr achlysur oedd dathlu buddugoliaeth dau brifardd arall o'r ardal, sef Caradog Prichard ac Emrys Edwards. Eleni fe gawn ni'r cyfle i ddathlu buddugoliaeth Annes Glynn a Manon Steffan yn ogystal, a hefyd y gantores ifanc dalentog, Elliw Mai. Ardderchog Rhiwlas. Enillodd Manon y Fedal Ddrama am yr ail flwyddyn yn olynol, ac yn dod yn ail am y goron gan un o'r beirniaid, Do, mi ges i'r fraint o rododi cadair Eisteddfod Ysgol Dyffryn Ogwen i Manon rai blynyddoedd yn ôl, ac medda hi wrtha i ar achlysur cael ei hurddo yn Abertawe, roedd hi'n hogan fach yn Ysgol Rhwylas pan oeddwn i'n ymddeol.

Efallai y caf i goroni Manon ym Mhrifwyl Sir Fflint. Cusan arall! Pwy a wŷr!

NEWYDDION YR YSGOL

Mae saith o blant o'r Adran Iau yn brysur yn paratoi i fod yn Rhufeiniaid yn sioe *Son et Lumiere* yng Nghaernarfon ar Hydref 27 a 28. Diolch i staff ysgol Bethel am roi croeso i Lilac, Liam, Danny, Gethin, Cai, Chris a Caitlin pan aethont draw yno i ymarfer. Diolch hefyd i Mrs Edwards-Jones, mam Gethin, am fynd

gyda'r disgyblion.

Mae gennym wasanaeth Diolchgarwch yn y capel ar brynhawn Llun, Hydref 23. Diolchwn i Mrs Susan Williams o Lanrug am ddod atom i gyfeilio yn absenoldeb Mrs Davies. Brysiwch i wella Mrs. Davies - mae'n chwith ar eich ôl!



Mae Cheryl Williams, un o'n cyn-ddisgyblion, wedi bod yn yr ysgol ar brofiad gwaith o Ysgol Brynrefail. Roedd yn boblogaidd iawn gyda'r plant yn y Babanod, a chafodd gyfle i gyfarfod Wali!



Diolch i Ian Wilman o Techniquet, Llanberis. Daeth i'r ysgol i gynnal gweithdy gwyddoniaeth gyda disgyblion yr Adran Iau. Roedd pob un wedi mwynhau gweld yr arbrofion ac wedi dysgu llawer hefyd.

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walïau a llorïau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar

01286 830 805



Llyfrau Newydd ar gyfer y Dolig

Ar y Lein Eto Bethan Gwanas

Erystal cyfrwng ydi'r teledu, all o byth ddangos pob dim. Ond dydi llyfrau ddim yn gorfod cael eu gwasgu i hanner awr. Mae hanes ail gyfres *Ar y Lein* i gyd (wel, bron) o fewn y gyfrol hon, sef y dyddiadur y bu Bethan Gwanas yn ei gadw ar ei thaith trwy'r ddau Begwn, a pheth wmbredd o leoedd rhyngddyn nhw.

Cewch wybod am hwyl a helynt pob cam o'r daith - o'r trafferthion gafwyd efo'r camelod yn y Sahara a'r batris yn yr Arctig, i'r ardaith o geisio stwffio pwffin yn y Ffaroos. Mae'r chwerthin a'r strancio i gyd yma, yn ddigri, yn ddwys a hynod ddarllenadwy.

Mwynhewch!

Gwasg Gwynedd, £5.99



Lol neu Lwc Emily Huws

'Ela' roddon nhw'n enw i'r ferch fach y daethon nhw o hyd iddi wedi'i brifo'n arw ar ochr y ffordd. Ond pwy ydi Ela mewn gwirionedd? A phwy ydi ei rhieni? O dipyn i beth mae hi'n dechrau cofio pethau o'i gorffennol, ac mae llu o gwestiynau poenus yn dechrau troi yn ei meddwl.

Breuddwyd Ela ydi cael ei mabwysiadu gan ei mam faeth ac mae ganddi sawl tric i fyni ei llawes er mwyn gwireddu'i breuddwyd. Ond fe allai ei holl waith ditectif hi ac eraill chwalu ei byd hapus. Beth sydd o'i blaen - lol neu lwc?

Mae'r awdures, Emily Huws, wedi byw ym mro'r *Eco* ar hyd ei hoes ac yn un o brif awduron plant Cymru.

Addas ar gyfer plant 9-12 oed.
Gwasg Gwynedd, £4.95.



Wir Yr!

Atgofion Maldwyn Lewis

Dyma gasgliad o atgofion yr hir edrychwyd ymlaen at weld ei gyhoeddi - hanner cant o ysgrifau yn gymysgfa o'r dwys a'r difyr, y difri a'r digri. Yn onest, yn ddiflewyn ar dafod, yn ddadlennol iawn hefyd ar brydiau, eithr bob amser gyda gwên ar ei wyneb, mae Maldwyn Lewis yn portreadu llu o gymeriadau lliwgar y cyfarfu â nhw yn ystod ei yrfa amrywiol.


Maent i gyd yma - cymeriadau hynod Stiniog a Phorthmadog, pobol hwyliog Seland Newydd, enwogion Bangor, stiwdants direidus, heclwyr dawnus!

Disgrifir hynawsedd rhai fel Tom Jones, Llanuwchllyn, trahauster Leo Abse, surni Goronwy Roberts, ymroddiad a hiwmor Owain Owain a chelwydd Neil Kinnock.

Yn ei ddydd bu'n Gadeirydd Pwyllgorau Ysgolion, Addysg a Chyllid yr hen Wynedd. Dyma'r cyfnod y lluniwyd polisïau arloesol, uchelgeisiol a heriol ym myd addysg, iaith a dulliau o gyfweild ymgeiswyr am swyddi. Fel asiant etholiadol Dafydd Wigley, bu'n gyfrwng i greu llenyddiaeth wreiddiol a hwyliog.

Yn ei ragair i'r gyfrol, mae'n pwysleisio mai ei amcan pennaf yw diddori. Does dim dwywaith na lwyddodd i wneud hynny. Er bod yna ar brydiau gofnodi gyda dwyster rai cyfnodau tymhestlog, o ddadrithiad a siomiant, nid yw'r wên lydan ddireidus fyth ymhell i ffwrdd.
£6.90

Gwasg Carreg Gwalch



DRAENOG MWY O ANTURIAETHAU DIL

Yn dilyn ei hanffawd gyda'r gath a'i gwallt, penderfynodd Dil fynd i'r gawod i ymlacio. Tra'n newid cofiodd yn sydyn bod llawr yr ystafell ymolchi yn gallu bod yn reit oer ar brydiau felly dyma benderfynu gwisgo ei sliperi am ei thraed. Cyn hir a hwyr roedd Dil yn ymlacio'n braf o dan y gawod pan sylweddolodd bod ei sliperi yn dal am ei thraed ac yn socian o wlyb. Beth fydd yr antur nesaf ysgwn i? Cawn wybod ar ôl i Dil ddod adref o'i gwyliau ar Fôr y Canoldir!!

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

ARVONIA

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiâu Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud; archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonias.co.uk
Gwefan: www.arvonias.co.uk

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli




cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfinedig drwy Warant 3420271



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

Mwy o luniau Band Deiniolen



Rhai o aelodau ieuengaf y Seindorf.



Diolchgarwch Capel y Rhos.



I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**

Ffôn: (01248) 714043

neu **Caernarfon**

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes
gan y perchnogion newydd,
CLED A SUSAN

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor,
yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â
gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

**Diolch i bobol Bethel am eu croeso a'u
cefnogaeth yn ystod ein misoedd cyntaf.**



Ar Ben Arall y Lein

Ar ôl misoedd o newyn fe
ddaeth amser o ddigonedd,
hynny yw, o ddiwedd Medi hyd
at 17 Hydref, fe welwyd
lefelau'r afonydd yn codi'n
sylweddol ac oherwydd hyn fe
lifodd yr egiad o'r Fenai
drwy'r Seiont am Lyn Padarn.
Yno fe gant egwyl tan ddechrau
Rhagfyr, cyn ailafael yn eu
siwrnai am Nant Peris i fwrw
grawn.

Fe gafwyd mantais wrth i
nifer o'r pysgod aros ennvd yng
nghil rhai o byllau'r afon. Ar
adega fel hyn maent yn disgyn
i'r demtasiwn o ruthro i'r
bluen. O'r wybodaeth sydd
wedi ei throsglwyddo i mi,
dyma'r rhai llwyddianus: Cecil
Hope a Wyn Parry, Caernarfon,
gyda phedwar yn un, a'r mwyaf
o'r rhain gan Wyn yn pwyso
16 pwys 8 owns. Dyma'r
sgodyn, mae'n debyg, fydd yn
enill Tarian W. J. Williams, sy'n
cael ei chyflwyno'n flynyddol
am yr eog trymaf. Eog trymaf
Cecil oedd un da arall, 11 pwys
10 owns.

Eraill sy'n rhaid cofnodi eu
henwau yw Carl Hasson,
Caernarfon, gyda thri, ond yn
anffodus dim tarian y flwyddyn
yma gan mai rhyw 7 bwys oedd
y trymaf ganddo. Gwyn Jones,
eto o Gaernarfon, gyda thri a'r
mwyaf yn rhyw 10 pwys.
Gwynfor Jones, Bethel, gyda un
am 5 pwys, rhaid peidio dal
pysgod bach Jôs! Bert Japheth,
Caernarfon: dau am 7 a 10
pwys; James Carr, Llanrug: un
am 7 bwys; Paul Skinner,
Lerpwl: un am 7 bwys; Dafydd
Spencer, Llandudno: dau am 7
bwys; Howard Jones,
Caernarfon: dau am 7 bwys yr
un; John Fraser Williams,
Caernarfon: un am 5 pwys;
Mark Hughes, Llangollen, Ron
Miers, Capel Coch, Ynys Môn,
a Clifford Thomas, Felinheli,
gyda un yr un am 7 bwys.
Gareth Bryfdir Jones,
Bontnewydd: un am 7 bwys;
Malcolm Owen, Caernarfon:

dau am 8 bwys yr un; Dafydd
Davies, Caernarfon: un am 11
pwys.

Cyfanswm am y tymor yw
62. Rhaid ymddiheuro am
beidio enwi'r gweddill, ond
cofiwch os na chaf wybod ni
allaf eich enwi.

Newydd ardderchog fod
cynllun gollwng sils wedi ei
ailgychwyn, gyda thros 3,000
o'r pysgod bach yma yn y
ddeorfa. Bydd rhain yn mudo
i'r môr ar ddechrau Mai 2007 a
disgwylir canran ohonynt yn ôl
i'r afon yn ystod haf 2008. Gyda
rhwidi dinistriol oddi ar
arfordir gorllewinol Iwerddon
wedi cael eu ddefnyddio am y
tro olaf eleni, mae rhyw
disgwyliadau mawr y bydd
pethau'n gwella'n sylweddol o
hyn ymlaen.

Rhaid dweud gair i
longyfarch y criw sy'n gofalu
am y ddeorfa. Mae'r lle'n werth
ei weld a'r cynnyrch o frithyll
yr enfys a brown a stociwyd i'n
dyfroedd yn ystod y tymor wedi
bod o'r safon uchaf. Hefyd
diolch i'r criw sydd wedi bod
yn gofalu am a thacluso'r
glannau. Mae'r lle yn gredyd i
chwi oll - Diolch yn fawr.

Mae'n sicr fod pawb wedi
syrffedu ar glywed trafferthion
gyda'r adnewyddu ym Melin y
Cim! Mae'r gwaith ar orffen
erbyn hyn, ond cyn gynted ac
mae golau dydd i'w weld mae
trafferthion eraill yn amlygu eu
hunain. Ni allaf ymhelaethu ar
hyn rŵan, ond gobeithio y
gallaf roi eglurhad llawn
ymhen ychydig wythnosau.
Dim seibiant mae gennyf ofn!

HUW PRICE HUGHES

Cyngor Iechyd Cymuned

Fel rhan o Wythnos
Ymwybyddiaeth Cyngorau
Iechyd Cymuned Cymru
(CIC), bydd aelodau o
CIC Gogledd Gwynedd yn
cynnal sesiynau gwybodaeth
mewn amrywiol leoliadau ar
draws ardal Dwyfor ac Arfon.

Prif waith y Cyngorau
Iechyd yw cynrychioli llais y
cyhoedd ym maes y
Gwasanaeth Iechyd.

Os oes ganddoch chi
gonsyrn am unrhyw agwedd
o'r Gwasanaeth gallwch gael
mwy o wybodaeth o Swyddfa'r
Cyngor Iechyd yng
Nghaernarfon ar (01286)
674961.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

MERCHED Y WAWR.

Cychwynnwyd y cyfarfod drwy ganu Cân y Mudiad gyda Megan Roberts yn cyfeilio. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Nan Humphreys. Dymunwyd pob bendith i Eryl ar ei hymddeoliad a dymunir Priodas Ruddem hapus i Olwen a Goronwy ar 29 Hydref. Llongyfarchwyd Mair a Gwyndaf ar enedigaeth eu hŵyr bychan, Berian. Cynhelir Cwis Hwyl Cenedlaethol nos Wener, 17 Tachwedd, yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd am 7.00 o'r gloch. Gellir dewis cyw iâr, ham neu lasagne llysieuol o'r fwydlen am £8.95 os dymunir. Bydd angen 4 aelod i bob tîm. Cost cystadlu yw 11 y pen.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch am y rhodd haelionus tuag at Eisteddfod Llanrug a Chwm-y-glo.

Gwestai'r mis oedd Mrs Eirlys Williams o Fethel, yn wreiddiol o Lithfaen. Mae'n gweithio yng Ngholeg Menai ac yn cadw gweithdy hefo Siop Aga.

Os mai gwledd i'r llygaid a gawsom ym mis Medi, gwledd i'r trwyn a'r geg a gafwyd gan Eirlys. Bu'n ddeheuig yn paratoi saladau o bob math ac yn eu cyflwyno mor broffesiynol. Roedd ei gwyllo yn gwneud i'r cogydd gwanaf ohonom deimlo y gallent hwythau roi cynnig arni i wneud saladau nionyn, reis gyda phys a chorn melys, paté nionyn a salad fflagbys. Roedd arogl hyfryd yn Neuadd y Sefydliad Coffa.

Roedd y pwdinau bendigedig yn tynnu dŵr o ddannedd pawb ohonom. Pwdin Swis-rôl siocled oedd y cyntaf gyda 'joch' o frandi ac oreunau a chwstard siocled - bendigedig! Yna, pwdin afal - malu bisgedi'n fân, chwipio hufen a'i arllwys dros yr afalau a'i orchuddio'n gywain gyda chnau. Eirin gwlanog, iogwrt Groegaidd a chaws bwthyn plaen oedd y nesaf - cymysgu'r iogwrt a'r caws a gorchuddio'r eirin gwlanog - a dyna bwdin hawdd, bendigedig arall.

Roedd Eirlys wedi gofalu am blât a llwy i bob un ohonom ac roedd pawb yn awyddus i gael y risetiau. Llwyddodd Eirlys i gyflwyno 13 o etitemau o'n blaenau a hynny mor rhwydd a chartrefol.

Diolchodd Nan i Eirlys am fod yn 'Ready, Steady, Cook' ardderchog. Enillydd y raffi oedd Phyllis o Benisarwaun. Diolchwyd i Margaret, Megan ac Ann am baratoi'r baned.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 14 Tachwedd, gyda 'Gwaith Piwtar' yng ngofal Margaret Jones o Bwllheli. Bydd Cinio Nadolig y gangen ym Mhlas Tirion, Llanrug, ar 12 Rhagfyr. Pris £14.95.

YR YSGOL GYNRADD.

Cydymdeimlad. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Maureen Pierce ar golli ei mam yn ddiweddar.

Ensemble Cymru. Ar nos Iau, 12 Hydref, aeth nifer fawr o ddisgyblion B1.2-B1.6 i weld perfformiad o Garnifal yr

Anifeiliaid yn Neuadd PJ Bangor. Ensemble Cymru oedd yn gyfrifol am y perfformiad - roedd tri aelod o'r criw eisoes wedi bod yn yr ysgol yn rhoi blas i ni. Bu cryn edrych ymlaen a chafodd neb eu siomi - roedd hi'n noson gwerth chweil ac roedd y disgyblion i gyd wrth eu bodd.

Bingo. Cynhaliwyd noson Fingo yn yr ysgol gyda Mr Williams yn galw'r rhifau lwcus. Diolch am eich cefnogaeth.

PLAID CYMRU. Cafwyd dechrau da i dymor y gaeaf nos Fercher, 13 Medi, pan ddaeth yr Aelod Cynulliad dros Ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Helen Mary Jones, i ymweld â'r gangen. Roedd ei neges yn her ac yn ysbrydoliaeth ar ddechrau ymgyrch etholiad 2007. Plaid Cymru yw'r unig blaid wleidyddol i roi Cymru'n gyntaf. Rhaid troi cariad at Gymru yn ymrwymiad gwleidyddol i sicrhau Senedd gyda phwerau i weithredu polisïau er lles pawb yng Nghymru.

Cafwyd cwestiynau a thrafodaeth fywiog yn dilyn a phawb yn gwerthfawrogi bod Helen wedi dod atom o ganol ei phrysurdeb yn Llanelli.

Nos Fercher, 18 Hydref, daeth yr actor dawnus, Dyfan Roberts, i gyflwyno Cymru Gwynfor. Mae'r CD a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn gasgliad cyfoethog o farddoniaeth a rhyddiaith a ddetholwyd gan Dyfan i gyfleu Cymru Gwynfor Evans, a'r gwerthoedd a'i gyrrodd ac a'i cynhaliodd drwy oes hir o ymgyrchu. Cyflwynodd Dyfan rai o'r cerddi sydd ar y CD gyda rhannau o hunangofiant Gwynfor, *Bywyd Cymro*, a rhoi noson wirioneddol gofiadwy i'r gangen.

Cynhelir Noson Goffi nos Fercher, 15 Tachwedd, yn y Sefydliad Coffa. Bydd stondinau a rafflau a byddwn yn falch o gael addewidion am gacennau, bwydydd, llyfrau, teganau a help gyda'r stondinau. Cysylltwch â Vera (674878), Meirwen (675359), Phyllis (870237) neu Llinos (674478) a bydd croeso cynnes i bawb.

CAPEL Y RHOS. Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel y Rhos fore Sul, 15 Hydref. Braf iawn oedd gweld y capel bron yn llawn. Athrawon yr Ysgol Sul oedd wedi trefnu'r gwasanaeth eleni gyda dros 60 o blant yn gwneud eu gwaith yn ardderchog.

Diolch yn fawr i bawb gymerodd ran ac i Mrs Ann Thomas a Mrs Sian Wheway am gyfeilio. Hefyd, diolch i Mrs Beryl Thomas am ofalu am y blodau fel arfer.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Glwb 100 y Sefydliad am fis Hydref: £20: Mrs M. Parry, Bryn Heli; £7: Mrs M. Griffiths, 2 Hafan Elan; £5: Mrs C. Owen, 4 Bro Rhythallt.

DYMUNIADAU GORAU. Brysiwch wella Mrs Buddug Hughes, Isallt, Rhos Rhythallt. Deallwn eich bod wedi dod adref ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Lerpwl.

Adeilad Newydd ar Gopa'r Wyddfa Cyfle Wedi ei Golli?

Yn rhifyn mis Hydref o *Eco'r Wyddfa*, cafwyd ar y dudalen gyntaf fanylion ynghylch dymchwel adeilad copa'r Wyddfa. Digwydd hynny yn ystod mis Medi eleni. Anferth o dasg; tipyn o waith. Pan oedd yr *Eco* yn cael ei osod daeth i law lythyr hynaws hefo ychwaneg o wybodaeth am yr adeilad newydd, a gwybodaeth sydd wedi ei gynnwys ar y We yn ogystal! Diolch i Llinos Angharad, Rheolwr Cyfathrebu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, am yr wybodaeth a ganlyn:

Carreg Leol i Gopa'r Wyddfa

Gwenithfaen o chwarel Cwt y Bugail ger Blaenau Ffestiniog fydd yn ffurfio waliau a lloriau allanol yr adeilad newydd ar gopa'r Wyddfa.

Gol.: Mae hyn yn dilyn cyfarfod arbennig o APCR, sef Pwyllgor Cynllunio'r Awdurdod, ar 6 Medi y flwyddyn gyfredol pryd y cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai contractwr Cynllun Datblygu Copa'r Wyddfa yn defnyddio gwenithfaen o chwarel Cwt y Bugail, a hynny ar ôl cael prisiau mae'n bur debyg o chwareli llechi eraill yma yng Ngwynedd (?), neu o du allan i'r sir. Ydyw, ydyw, mae'r gwenithfaen dan sylw'n

DIOLCHIADAU. Dymuna Liza Ann Jones, 4 Teras Arfon, ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu holl gefnogaeth yn ei noddi i redeg y Great North Run. Gwnaeth yn ardderchog gan gyflawni'r dasg mewn 1 awr a 51 munud a chasglu £200 tuag at elusen Marie Curie. Da iawn ti, Liza.

PROFEDIGAETH. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Maureen, Alun a Gwilym Davies yn eu profedigaeth lem o golli eu mam annwyl, Mrs Mary Elizabeth Davies. Cofiw'n at yr wyrion, Kevin a Dylan, yr wyresau, Sian a Iona, a'r teulu i gyd.

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwilym, Maureen, Alun a'r teulu i gyd ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb a fu mor garedig wrthynt yn ystod eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn.

Diolch am yr ymweliadau i'r cartref, y cardiau a'r galwadau ffôn.

Diolch i'r perchennog presennol ac yn y gorffennol, ac i holl staff Y Foelas am eu tynerwch a'u gofal di-baid am Mam dros y pum mlynedd diwethaf.

Diolch i Merfyn Jones am ei wasanaeth ac i bawb a ddaeth ynghyd yn y gynulleidfa ddydd yr angladd a diolch i Gwynfor Jones, yr Ymgymerwr, am ei garedigrwydd a'i gymorth. Bydd yr arian a roddwyd er cof am ein Mam yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Alzheimer.

cael ei ddefnyddio i adeiladu waliau a phafin platfform yr adeilad newydd. Popeth yn dda, ond pam y ffys a'r ffwdan - yn enwedig hefo'r to (byddai angen hofrennydd, balwn a ballu i allu gweld lliw y garreg a ddefnyddir yno!)? Ond dyma be' sy' gan Aneurin Phillips, PW APCE, i'w ddweud:

'Bu'n broses hir, anodd a chymhleth. Oherwydd cyfyngiadau cyfraith Ewropeaidd ni fu'n bosib i ni fynnu bod deunydd ar gyfer yr adeilad newydd yn dod o ffynonellau lleol. Mae'r contractwr yn ymwybodol o'r ffaith ein bod ni fel Awdurdod yn hynod o awyddus i ddefnyddio cymaint o ddeunyddiau lleol ag sy'n bosib. Yn anffodus fel Awdurdod cyhoeddus, ni chawn fynnu bod contractwr yn dewis un cyflenwr lleol, neu'n ffafrio un yn fwy na'r llall. Fel gyda'r to, rhoddwyd cyfle cyfartal i chwareli lleol ddarparu'r gwenithfaen ac yng ngoleuni hyn felly, mae'n braf cael cyhoeddi mai chwarel Cwt y Bugail ger Blaenau Ffestiniog fydd yn darparu rhan fwyaf o'r garreg ar gyfer adeiladu'r adeilad newydd ar gopa'r Wyddfa.'

Yn ôl fy nealltwriaeth i, bydd dros 60% o werth y contract yn nhermau llafur, trafnidiaeth a deunydd yr adeilad newydd yn dod o Gymru. Yn nhermau adeiladu heddiw a hynny mewn lleoliad mor unigryw ag anodd â Chopa'r Wyddfa, mae hyn yn gamp anhygoel.

Bu'n daith hir i ni fel Awdurdod, ond gyda chymorth hael ein partneriaid yn y fenter hyd yma, yr Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa, Cymdeithas Eryri a miloedd eraill a gyfrannodd i'r Apêl, mae'n breuddwyd ar fin dod yn wir.'

Gol.: Iawn yntê! Ond erys un ffaith ddigamsyniol, Mistar Phillips. Mae'r adeilad eisoes yn rhy fychan ac nid ydyw'n fodern o bell ffordd ac heb fod cweit yn ateb anghenion y Gymru bresennol, nac ychwaith ddibenion ymwelwyr o wahanol wledydd. 'Cyfyngedig' - dyna union ddisgrifiad un o'ch cydswyddogion yn APCE pan ddanfonodd yr *Eco* gwestiynnau i'w hateb atoch chwi! Sioe sleidiau? Ble aeth y cyfle i ddefnyddio technoleg fodern d'wedwch? Ia, ym mha oes yn hollol rydan ni'n byw ynddi? Ai cyfle wedi ei golli ydyw'r addeilad newydd ar gopa'r Wyddfa. Dim ond amser a ddengys!

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar 5 Medi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan y Clerc ac, yn absenoldeb y Cadeirydd, llywyddwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, Elspeth Mitcheson.

Croesawyd Aelod y Cynulliad, Mr Alun Ffred Jones i annerch y cyfarfod.

Cyflwynodd Mr Jones chwe prif bwynt i'w trafod sef:

- Newidiadau i'r ffiniau etholiadol a'r gobaith i'r Cynulliad gael hawl deddfu.
- Iechyd y cyhoedd, cyflwr y gwasanaeth ambiwlans a deintyddion. Y gwario mawr sy'n digwydd a'r diffygion.
- Economi - Gwynedd wedi llwyddo'n dda i ennyn arian Amcan 1. Y pryder yr anwybyddir y gogledd yn y dyfodol gan Gaerdydd.
- Swyddi - y drifft i'r Dwyrain. 70 o swyddi o Wynedd yn symud i Brestatyn ar hyn o bryd. Nid oes symud i'r cyfeiriad arall.
- Tai. Prisiau wedi codi mwy yng Ngwynedd nac yn unman arall. Llai o dai Cyngor i'w rhentu. Tai nas defnyddir a'r angen i gartrefu'r di-gartref.
- Ffordd osgoi Caernarfon - angen ei gwreiddu yn fuan.

Trafodwyd y pwyntiau yn fanwl a chafwyd ateb rhesymol i holl gwestiynnau'r Cyngorwyr ac addewid yr Aelod y bydd yn dal i bwysu ar yr anghenion uchod yn ystod cyfnod nesaf y llywodraeth.

Diolchodd y llywydd i Mr Jones.

Cofnodion 25 Gorffennaf

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Mainc Mileniwm Bethel: cyflwynwyd ateb Gwynedd y gallai'r fainc gael ei fandaleiddio yn y cae chwarae ac mai'r Cyngor yma fuasai'n gyfrifol am ei chadw mewn cyflwr diogel. Gan bod y fainc sydd yno eisioes yn cael llonydd penderfynwyd ei symud i'r cae chwarae.

Cyhoeddiad cyfarfod blynyddol 'Un Llais Cymru:' gwirfoddolodd Len Jones i'w fynychu.

Carthffosiaeth Brynrefail: Llythyr Saesneg y Bwrdd Dŵr yn egluro'r sefyllfa bresennol. Penderfynwyd ei anfon yn ôl a mynnu llythyr Cymraeg, ond anfon copi i Pat Jones er gwybodaeth buan.

Ffordd Brynteg, Clwt y Bont: Ateb Gwynedd y dylid gwella'i chyflwr cyn y gall y Sir ei mabwysiadu; cysylltu â William Lee am fwy o wybodaeth. Penderfynwyd anfon copi o'r llythyr i Gwilym Williams.

Rhiwen, Deiniolen: Ateb Gwynedd nad yw'r ffordd yma yn cydymffurfio â'r canllawiau

am gyfyngiad 30 m.y.a.

Gwaharddiad parcio o flaen Hafan, Penisa'rwaun: ailedrych ar y sefyllfa ar ôl Ebrill 2007.

Derbyniwyd diolch oddi wrth y Cyngorwyr Elwyn Edwards am yr adroddiad ar enwau lleoliadau wedi eu Seisnigeiddio.

Dyweddodd Phyllis Ellis nad yw'r arwydd 'Penisa'rwaun' byth wedi ei ailosod - atgoffa Gwynedd.

Gohebiaethau a materion eraill

Derbyniwyd manylion y Cynulliad ar 'Cod Ymddygiad Cyngorwyr'. Aeth Elspeth Mitcheson â'r ddogfen i'w darllen.

Swyddfa'r Post, Rhiwlas: Cyflwynwyd adroddiad bod y Swyddfa'r Post yn gobeithio cael safle arall ond eglurodd y cyngorwyr nad oes gobaith i hynny hyd yn hyn.

Sesiwn Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar 25 Hydref yn Siambr Arfon am 7.00 p.m.: Disgwylir i'r Clerc, y Cadeirydd a dau Gynghorydd ei fynychu (trafodir eto ddiwedd Medi).

Arwydd 30 m.y.a. Penisa'rwaun: Dywedodd Aled Green bod angen ei symud at 'Hendre' o ran diogelwch plant a rhieni y tu allan i'r Eglwys.

Y gwaith ar Ffordd Rhiwlas: Dywedodd Hefin Williams bod y ffordd wedi ei chau yn llwyr ar adegau, heb rybydd. Bu rhaid iddo aros am 20 munud heno i lori ddadlwytho, ac yn ystod y gwyliau bu'r ffordd ar gau am oriau. Ychwanegodd Elspeth Mitcheson na fuasai Ambiwlsans yn medru cyrraedd y pentref a bod y gwasanaeth bwsiau yn amhosibl. Penderfynwyd anfon adroddiad i'r Adran Briffyrdd.

Cyfeiriodd Len Jones at gyflwr y gysgodfan bws ger Maes Eilian, Dinorwig - mae wedi ei difrodi gan stormydd. Penderfynwyd gofyn am bris i'w hatgyweirio a chysylltu â'r yswirwyr.

Hen Sied Trenau, Stabla:

Dyweddodd Phyllis Ellis bod tân wedi difrodi ei thu mewn - adroddiad i'r Swyddog Adeiladau Cofrestredig.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Lledu mynedfa cae 4646: Lôn Las, Llanrug.

Estyniad: Garnedd Wen, Fachwen.

Estyniad: Cae Gwydryn, Seion.

Estyniad: 2 Cefn Coed, Penisa'rwaun.

Estyniad a newidiadau: Penmaen, Bethel.

Addasu adeilad yn ddau uned ymwelwyr: Tan yr Wylfa, Llanddeiniolen.

Ceisiadau a wrthwynebwyd:

Creu llyn yn Coed Bolyn Mawr, Bethel: am nad oes cynllun cynhwysfawr i'r holl ddatblygiadau a fwriedir yno.

Lleoli dosbarth symudol, ysgol Bethel: oherwydd ail-leoliad y dosbarth y tu cefn ac o fewn golwg annedd breifat.

Adeiladu 2 dy tri llawr, 63/68 caeau Gleision, Rhiwlas: am yr un rhesymau a'r cais blaenorol.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Adeiladu dau dy a mynedfa: Bryn Celyn, Clwt y Bont.

Ymestyn cwrtil a gwneud rhodfa - Tŷ Newydd, Dinorwig.

Estyniad yn y cefn: Alun House, Saron, Bethel.

Cais a wrthodwyd gan Wynedd:

Newid defnydd tir ac adeiladau i ddefnydd C2, sef sefydliad preswyl: Cae Mabon, Fachwen.

Llwybrau

Nid oedd ateb oddi wrth Wynedd am lwybrau Rhiwlas. Gofynnodd Hefin Williams i'r Clerc eu hatgoffa. Dywedodd Elspeth Mitcheson bod angen llwybr (palmant) o Bentir at Lôn Rhiwlas.

Adroddiadau

Dyweddodd Len Jones bod yr Heddlu'n cadw golwg ar drigolion Afon Goch. Hefyd ei fod wedi llwyddo i gael Warden yn y Noddfa am bedair awr ar hugain y dydd, ac o'r herwydd nid oes cwyn wedi bod ers tri mis.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

26 Medi.

Cyngor Cefn Gwlad

Gwylwch am wylanod a chŵn defaid ar fysiau!

Peidiwch â synnu os gwelwch wylanod neu gŵn defaid ar fysiau yn Sir Benfro ac yn Eryri. Maen nhw'n gymeriadau 'Creature Comforts' sy'n cael eu cynhyrchu gan Aardman Animations a enillodd wobr yr Academi, ac sy'n helpu i ledaenu negeseuon y Cod Cefn Gwlad.

Yn Sir Benfro, mae'r gwylanod yn ymddangos ar y bws sy'n teithio rhwng Angle a Freshwater East - sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan bobl leol yn ogystal â cherddwyr Llwybr Arfordir Sir Benfro.

Yn Eryri, mae'r ci defaid yn ymddangos ar y bws sy'n teithio rhwng Porthmadog a Betws-y-coed, neu rhwng Porthmadog a Llandudno.

Cyllidir yr hysbysebion gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac meddai Joe Roberts, Swyddog Polisi Hamdden y Cyngor: 'Rydym eisiau i'r Cod Cefn Gwlad gyrraedd cymaint o bobl ag sy'n bosibl er mwyn annog pawb i fynd allan a mwynhau'r cefn gwlad a gofalu am yr amgylchedd naturiol o'u hamgylch ar yr un pryd.'

Felly beth sydd yn y cod?

- Bod yn ddiogel - cynllunio ymlaen llaw a dilyn yr arwyddion;
- Gadael giatiau ac eiddo fel rydych yn eu canfod;
- Amddiffyn anifeiliaid a phlanhigion, ac ewch â'ch ysbwriel gartref;
- Cadw cŵn o dan reolaeth lem;
- Ystyried pobl eraill.

Dim ond un ffordd yw'r bysiau o ledaenu'r negeseuon. Mae hysbysebion teledu hefyd yn defnyddio cymeriadau 'Creature Comforts' ac felly hefyd y pecynnau addysg a anfonwyd at bob ysgol yng Nghymru.

Ychwanegodd Joe: 'Mae economi llawer o gymunedau gwledig yn dibynnu ar ddenu ymwelwyr i'r golygfeydd ysblennydd. Dengys ffigyrau Bwrdd Croeso Cymru fod twristiaeth sy'n gysylltiedig â cherdded ar ei ben ei hunan yn werth tua £550 miliwn i gymunedau gwledig.

'Fodd bynnag, nid yw economeg syml yn dweud y stori gyfan. Mae'r manteision cymdeithasol a manteision iechyd sy'n deillio o gerdded a gweithgareddau awyr agored eraill yr un mor bwysig. Mae cefn gwlad yn gallu gwella ansawdd ein bywydau ni i gyd - mae cerdded, beicio neu hyd yn oed ymlacio yng nghefn gwlad yn gallu gwella'n hiechyd ac yn gyfle i ddianc rhag pwysau bywyd modern.

'Mae Cod Cefn Gwlad yn ganllaw syml i sicrhau fod mwynhau yn cydynd â pharchu a gwarchod cefn gwlad.'

Cewch eich copi am ddim o'r Cod Cefn Gwlad a syniadau ar sut i fwynhau cefn gwlad gan dim ymholiadau'r Cyngor Cefn Gwlad ar 0845 130 6229.



Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwych

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr Wryn Lleol mwyaf blasus,

Selsig cartref


Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

CROESAIR TACHWEDD



Ar Draws

1. Abandlord (anagram)
3. Mae'n rhaid gwneud hyn i gael cyflog.
5. Mae'n bosib rhoi hylif neu nwy drwy hwn.
10. Cartref gyda olwynion.
13. Gweld rhywbeth cyn iddo ddigwydd.
15. Y Felinheli oedd y porthladd i'r chwarel yma.
16. Llumanwr Bryncoch.
18. Cupacegirl (anagram)
21. O ongl i ongl.
23. Mamal sy'n byw yn y môr.
29. Inparents (anagram)
31. Cewch llawer o rhain ar y to.
33. Mae'r haul i'w weld yr adeg yma.
34. Pfrwyth melyn gyda thro ynddo.
36. Mae angen hwn i ymolchi'n iawn.
41. Warmsec (anagram)
42. Digonnol
44. Mae 12 arwydd ynddo.
45. Ewch yma i wella.
51. Topdogharm (anagram)
53. Nonlelgall (anagram)
55. Mae rhai yn treulio trydydd o'i bywyd yma.
56. Mae'r haul yn un.
57. Cartref i'r ci.
58. Hwyl.
59. Afon drwy Bontnewydd.
60. Lle i gadw arian neu oriadau.

I Lawr

1. Dandydowell (anagram)
2. Cewch rannu hwn hefo chwadarn rwbwr!
4. Y diwrnod nesaf.
6. Mae angen un newydd o rhain pob Ionawr.
7. Diddiwedd.
8. Bryn -----
9. Dredgebelt (anagram)
11. Aderyn cochfrest.
12. Ffram cyfrif.
14. Llestr i ddal dŵr.
17. 12 o hen geiniogau.
19. Grandhasof (anagram)

20. Lefel.

22. Mae llawer o rhain yn nhref y pwll du.
24. Wrecon (anagram)
25. Lle i gadw'r hufen iâ.
26. Gêm gyda 22 o chwaraewyr ar y cae.
27. Lawnyell (anagram)
28. Llyn neu afon ar Ynys Môn
30. Besthead (anagram)
32. Rambawe (anagram)
35. Wrygreenbygang (anagram)
37. Mab neu ferch.
38. Wellphil (anagram)
39. Mab cyntaf y brenin neu'r frenhines.
40. Gwaith.
43. Mae rhain yn hedfan heb yr un pluen.
46. Warbimis (anagram)
47. Bestcoywed (anagram)
48. Loudlegal (anagram)
49. Gallwch edrych ar y sêr hefo un o rhain.
50. Cewch glywed Champion 103 ar hwn.
52. Gallwch ddefnyddio'r cnofil yma gyda'ch cyfrifiadur.
54. Owain -----


Ateb i groesair Hydref

Cefais lawer o atebion y mis yma ond dim ond un oedd yn hollol gywir, sef Alvona Jones, Ffordd Gronant, Prestatyn (un llythyren wahanol gan Dilys Pritchard-Jones o Abererch).

Rwyf wedi gwneud y grid yn fwy y mis yma oherwydd bod rhai yn cael trafferth i ddarllen y grid a'r rhifau bach. Rwyf finnau hefyd yn gorfod defnyddio sbectols! Gall y golygydd newid maint y grid i ffitio i faint o le sydd ar y dudalen.

Fel arfer, gyrrwch eich atebion i mi: Tecwyn Evans, Tremallt, Waunfawr, Gwynedd, LL55 4YY gyda 'Croesair' ar y tu allan i'r amlen, erbyn Tachwedd 15. Pob lwc!!

MÔR O GANU



hunangofiant
Dylan Parry

Môr o Ganu

Hunangofiant Dylan Parry


Gwasg Carreg Gwalch: £6.50

Os mai croesi môr ydi siwrnai bywyd, yna mae mordaith Dylan Parry wedi bod yn un stormus ar brydiau. Wrth ei weld yn perfformio ar lwyfan, yn rhoi gwên ar wynebau'i gynulleidfa drwy ei ffraethineb a'i agosatrwydd, ac wrth ganu ei ganeuon o'r galon, mae'r adloniant braf yn celu'r cysgodion tywyll ar brydiau.

Colled fawr iddo oedd colli ei ddau frawd a chwaer yn ifanc a bu gwaeledd Neil, ei fab, yn bwysau trwm i'w gario. Eto fel y dywed John o 'John ac Alun': 'Mae Dylan yn brwydro ymlaen gyda'i gerddoriaeth a'i hiwmor.'

Mae Dylan yn cydnabod iddo fod yn lwcus yn ei deulu a'i ffrindiau. Dyna'r angorion drwy'i helbulon a'i hwyliau da. Yn y gyfrol hon, down i glywed am y stormydd a'r tywydd teg - mwynhewch y fordaith.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



CHWARAEON



Dafydd a Orfu

Yn anffodus, ni chafwyd sioc ar faes Eithin Duon fuasai wedi rhoi tudalen o ddatllu i ni y mis yma. Serch hynny, gall Llanrug ymfalchïo yn eu perfformiad, a chafwyd ambell gyfle a allai fod wedi rhoi pwysau ar dîm Bangor. Bydd Owen Morris yn dal i ddyfalu sut y trawodd y postyn pan gafodd gyfle euraidd pan oedd ei dîm un gôl i lawr.

O fewn pum munud daeth ail gyfle wedi i Carl Griffith, am unwaith, lwyddo i gyrraedd y llinell a thynnu'r bêl yn ôl. Codi'i ben wnaeth Owen ac aeth y cyfle dros y traws.

O'r dechrau roedd yn amlwg fod culni'r maes am fod yn anfantais i Fangor a thrwy farcio'n dynn, llwyddodd Llanrug i orfodi'r ymwelwyr i chwarae bron iawn yn gyfangwbl i lawr canol y cae.

Cafodd Aaron Bailey gêm dda yn y cefn a chafwyd ambell fflach o ddawn Dafydd Noel ar y bêl. Serch hynny, meistr y gêm oedd Ricky Evans, a gafodd gêm gyhyrog, gref yng nghanol y cae. Ef oedd yn gyrru Bangor ymlaen, a gallai rhywun weld rhwystredigaeth Terry Williams yn cynyddu. Bu'n gweithio'n ddiflino ynghanol y cae ond roedd Evans yn feistr corn arno. Gwelodd Terry y garden goch wedi dwy dacl annerbyniol.

Rhaid sôn am berfformiad David Ball yn y gôl i Lanrug. Bu'n llais cadarn yn trefnu y llinell amddiffynol a bydd nifer yn cofio ei arbediad o daran o ergyd Blackmore, a hefyd ei arbediad gwyrthiol o gynnig Kyle Jacobs, oedd yn hedfan i gornel uchaf y rhwyd.

Siom fawr i'r tîm lleol oedd fod y rheolwr, Aled Owen, wedi ei anafu tra'n cynhesu cyn y gêm - yr hen gyhyrau eto!

Cafodd Clayton Blackmore ddigon o syniadau geiriol gan y dorf, yn enwedig pan fentraï at ochr y cae. Bu'n ddigon parod gyda'i atebion - yn aml gyda gwên ar ei wyneb. Tawel fu Jiws

o ran ymdrechion o nd bydd yn fodlon mai ef a greodd y ddwy gôl i O'Neill a Roberts.

2-0 i'r 'hogia mawr' felly ond gall clwb Llanrug ymfalchïo yn eu trefniadaeth a'u perfformiad, ac aeth tua 400 adref wedi cael eu bodloni efo'u hymdrech. Yn ôl i'r bara menyn i Lanrug felly, a chafwyd pwynt calonogol draw ar y Belle Vue.

Codi'r Gwarchae

Disgynnodd rhyw gwmwl du dros gefnogwyr pêl-droed Cymru yn dilyn y 'gweir' yn erbyn Slofacia. Roedd yr hanner cyntaf yn addawol, gyda Chymru yn pasio'r bêl yn ddigon celfydd. Ond yna, y fath gamgymeriadau! Gyda Paul Jones yn cael gêm drychinebus, llifodd y goliau i rwyd Cymru!

Yn amlwg wedi'r gêm roedd nifer yn galw am ailgyflwyno'r hen bennau, fel Speed, Savage a Hartson yn ôl i'r garfan. Ac efallai bod sylfaen i'r ddadl yma ond mae Toshack yn dadlau mai rhan o ddoe yw'r hen bennau bellach. Ei weledigaeth yw ailadeiladu tîm o gwmpas y criw ifanc. Yn sicr, mae Gareth Bale yn edrych yn gryn dalent, a chyda throed chwith gelfydd iawn bydd yn gryn gaffaeliad.

Cafwyd canlyniad calonogol yn erbyn Cyprus, gyda mwy o drefn yn yr amddiffyn. Er iddo sgorio nid wyf yn agyhoeddedig o rôl Earnshaw. Oherwydd ei faint, anaml iawn mae yn gallu 'dal y bêl i fyny'. Mae o a Bellamy yn dibynnu ar gael rhywun i roi'r bêl o'u blaenau. Efallai y gallai Koumas a Giggs gyflawni hynny.

Mae Gabbidon yn datblygu fel amddiffynwr rhyngwladol, ond eto mae ef hefyd angen un cryf wrth ei ochr. Buasai rhywun yn tybio y buasai Collins - sy'n gyd-aelod o dîm West Ham gyda Gabbidon - yn cyflawni'r dasg yma.

Yn anffodus, mae Collins yn cael ei ddal yn 'gwylio'r bêl' yn rhy aml a hefyd yn y safle

anghywir. Wn i ddim ai agwedd gyhyrog ddi-ffrils Craig Morgan yw'r ateb. Buasai'n gofyn llawer iddo symud o lefel MKDons - a Wrecsam yn ôl erbyn hyn i'r llwyfan rhyngwladol.

Bydd y ddwy gêm nesaf yn erbyn San Marino ac Eire yn dyngedfennol. Pe caem ddwy fuddugoliaeth, byddai llygedyn o obaith! Trueni na fuasem wedi cael y pwynt haeddiannol draw yn y Weriniaeth Czeck - buasai wedi gwneud tipyn o wahaniaeth i'r tabl.

Erbyn y mis nesaf, byddaf wedi arwain noson i glwb Pêl-droed Bangor yn Neuadd PJ ym Mangor, gyda John Toshack yn ŵr gwadd. Efallai bydd gennyf dipyn o 'inside info' i chwi erbyn hynny!!

Joe 'Di'r Boi!

O ddarlenn fy ngholofnau, efallai y buasech yn synnu fy nghlywed yn dweud fy mod yn laru ar bêl-droed weithiau. Mae gormod ohono ar y teledu, a phob papur newydd yn boddi dan sgandalau'r gamp. Braff felly oedd bod yn y Bedol ar nos Sadwrn yn ddiweddar, ymysg criw da yn gwylio Joe Calzaghe yn amddiffyn ei goron byd unwaith eto. Awyrgylch dda a sylwi fod nifer â chryn ddiddordeb yn y gamp, ac yn gwybod nifer o ffeithiau am record y Cymro. Yn sicr, nid yw Joe wedi cael sylw teilwng yn y wasg na'r cyfryngau Cymreig.

Y mae o erbyn hyn wedi amddiffyn ei goron 19 o weithiau - 6 yn fyr o record anhygoel Joe Louis. Y cwestiwn yw, a oes 6 bocsiwr o gwmpas i herio Joe? Buasai torri'r record yn dipyn o gamp!

Barn nifer oedd fod Joe yn

dioddef, nid o oedran neu ddiffyg ffitrwydd, ond o ddiffyg gwrthwynebwyr teilwng. Yn y gamp hon, dim ond un ergyd sydd ei hangen. Amser a ddengys a fydd raid i Joe groesi'r Iwerydd a cheisio torri record Louis yn y wlad sy'n teimlo mai yno mae'r goreuon.

Cais am Air

Yn aml ar fore Sadwrn byddaf yn pasio Ysgol Brynrefail a gweld gêm hoçi ar y maes pob tywydd. Oes chwaraewyr lleol yn aelodau o'r tîmau? Yn yr un modd dwi'n siŵr bod nifer o'r ardal yn taro'r bêl golff i bob cyfeiriad. Buasai'n braff pe byddech yn cyfrannu erthygl ar y campau hyn - a'r campau 'lleiafrifol' poblogaidd erail sy'n britho'r ardal.

A beth am sboncen, pêl-droed merched, rasio mynydd, cyfeiriadu

Oes Gobaith?

Mae gemau rhyngwladol yr hydref ar ei gwarthaf a thîm rygbi Cymru am herio Awstralia a Seland Newydd.

Mae arwyddion bod y syniad 'proffesiynol' yn dechrau cydio ar y maes, gyda lefel ffitrwydd a sgiliau trafod yn sicr yn gwella. Yn anffodus - fel yn sefyllfa y Sgarlets a'r Dreigiau - mae'n ymddangos mai amaturaidd braidd yw'r drefniadaeth oddi ar y cae. Mae arwyddion calonogol yn y gystadleuaeth Eingl-Gymreig, ac mae Cwpan Ewrop wedi dechrau. Gallai'r ddwy gêm yn erbyn y cewri o Hemisffer y De osod llwyfan ar gyfer y tymor i'n clybiau a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad. Amser cynhyrfus a chyfle arall i'r wlad fach hon ymuno â'r 'bwrdd top'.

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: 650218

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846